GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

# ADRODDIAD ADENILLION CYMDEITHASOL AR FUDDSODDIAD PROSIECT CYMORTH TAI GISDA 2021-2022

"Yn hytrach na thwnnel tywyll, mae yna oleuni!"

SOCIAL VALUE CYMRU



# Cynnwys


Crynodeb Gweithredol....3
Cydnabyddiaeth....6
1.0 Cyflwyniad....7
2.0 Cefndir a Chyd-destun....9
3.0 Methodoleg – Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (*Social Return on Investment*/SROI)....21
4.0 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chwmpas y Dadansoddiad....29
5.0 Mewnbynnau'r Prosiect....40
6.0 Allbynnau, Deilliannau a Dangosyddion....43
7.0 Amcangyfrif Gwerth Deilliannau....66
8.0 Cadarnhau Effaith....75
9.0 Canlyniadau SROI....81
10. Dadansoddiad Sensitifrwydd....82
11.0 Argymhellion....87
12.0 Casgliad....91

# Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y dadansoddiad o'r gwerthusiad Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) a gynhaliwyd ar brosiect Cymorth Tai GISDA, sef prosiect sydd yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc sy'n ddigartref neu mewn risg o fod yn ddigartref. Mae'r canlyniadau yn dangos bod gwerth cymdeithasol sylweddol yn cael ei greu drwy weithgareddau'r prosiect, gyda chanlyniad **SROI o £5.77:1 – sy'n golygu, bod pob £1 a fuddsoddir yn creu gwerth o £5.77.**

Yn sylfaenol i lwyddiant y prosiect yma yw'r ddarpariaeth o wasanaeth sydd nid yn unig yn edrych ar ddarparu llety, ond yn edrych ar bob agwedd o fywyd y person ifanc er mwyn sicrhau cymorth yn y tymor byr, ond sydd yn helpu i'w paratoi ar gyfer byw yn annibynnol yn y dyfodol. Wrth ystyried Theori Cymhelliant Dynol Maslow 1943, y lefel cyntaf neu sylfaenol mae pob unigolyn ei hangen yw anghenion ffisiolegol sydd yn cynnwys bwyd, diod a hefyd dillad a llety. Yn ôl y theori yma, mae angen i hyn cael ei fodloni cyn symud ymlaen i anghenion diogelwch megis iechyd a chyflogaeth, cyn symud ymlaen i bethau megis perthnasau, hunan barch a hunan hyder. Pan mae person ifanc yn gwneud cyswllt gyda GISDA, cael mynediad at lety saff yw'r cam cyntaf ond yn ogystal bydd cynllun cefnogi yn cael ei baratoi ar y cyd a'r person ifanc sydd yn ystyried sgiliau sydd ei angen i fyw yn annibynnol, materion i wneud ac iechyd corfforol a meddyliol, perthnasau, diogelwch, gwaith ac addysg, incwm a hefyd materion rhiantu i'r rhai sydd yn rhieni ifanc. Y ddarpariaeth holistig yma sydd yn arwain at newidiadau positif ym mywydau'r bobl ifanc.

Mae'r deilliannau a welwyd gan y bobl ifanc yn cynnwys **gwell iechyd meddwl a gwell iechyd corfforol, teimlo yn fwy annibynnol a hefyd teimlo yn llai unig a rhan o rwydwaith o gefnogaeth**. I lawer ohonynt, roedd y profiad o fod yn rhan o **'deulu GISDA'** a oedd yn cynnig cefnogaeth a

sicrwydd yn ogystal ag arweiniad yn brofiad newydd iddynt. Ceir pob person ifanc ei neilltuo gyda gweithiwr allweddol er mwyn cael ffocysu ar eu cynllun unigol a chael gweithredu ar gamau penodol, fodd bynnag roedd cytundeb nad oedd rhaid dibynnu yn llwyr ar un aelod o staff ond bod yna rwydwaith o staff ar gael i'w cefnogi.

Ar gyfer y rhieni ifanc, roedd y deilliannau yn debyg iawn ond yn ogystal roeddent yn **teimlo yn fwy annibynnol a hyderus fel rhieni.** Roedd cael y cymorth ochr yn ochr â'r rhyddid i fod yn rhiant a gwneud penderfyniadau yn annibynnol i'w plant yn bwysig iddynt. Roedd cael cyfle i fynychu sesiynau ar gyfer rhieni hefyd yn bwysig ond llawer angen cefnogaeth eu gweithiwr allweddol yn y dyddiau cynnar yma ac felly roedd y teimlad bod y gwasanaeth holistig yma yn torri rhwystrau arferol iddynt.

Y cyfuniad penodol o'r deilliannau hyn sy'n **cyfrannu at gynyddu gwydnwch y bobl ifanc i'w paratoi ar gyfer byw yn annibynnol.** Ceir nifer o enghreifftiau o'r bobl ifanc yn symud ymlaen yn eu bywydau ond sydd yn parhau i gadw mewn cyswllt gyda'r mudiad a gyda 'theulu GISDA'. Ceir ystyriaeth hefyd yn yr adroddiad am beth yw effaith y gwaith ataliol yma ar wasanaethau eraill. Mae ymchwil yn dangos bod cost ddigartrefedd rhwng £20,000 a £30,000 y person i'r dreth dalwr, ac felly dangosir bod **buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol yn gallu creu arbedion sylweddol** drwy nid yn unig sicrhau llety i'r unigolyn ond cymorth holistig sydd yn sicrhau bod pobl ifanc yn paratoi i fyw yn annibynnol ac yn gweld newidiadau positif yn eu hiechyd ac yn cyfrannu i gymdeithas drwy allu parhau neu gychwyn mewn addysg neu gyflogaeth. Yn llawer pwysicach na'r arbedion ariannol fodd bynnag yw'r deilliannau yma a'r gwerth mae'r bobl ifanc yn ei rhoi arnynt. Fel dywedodd rhai o'r bobl ifanc **"mae gwasanaeth GISDA wedi newid fy mywyd" ac "yn lle twnnel tywyll, mae yna oleuni."**

GISDA

DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

## *Prosiect Cymorth Tai GISDA 2021-2022*

*Mae'r adroddiad Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) yn dangos y gwerth bositif gwnaeth y prosiect rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022*

### TROSOLWG

- 151 wedi cael cefnogaeth drwy'r Cymorth Tai
- 86 wedi cael cefnogaeth drwy'r cymorth galw i fewn.
- 66% gydag anghenion iechyd meddwl
- 19% yn rieni ifanc
- 100% gydag anghenion llety



### CAERNARFON

Roedd **86%** o bobl ifanc Caernarfon yn dweud bod eu hiechyd meddwl yn well

Roedd **86%** o bobl ifanc Caernarfon yn dweud eu bod yn teimlo yn fwy annibynnol

### BLAENAU FFESTINIOG

Roedd **83%** o bobl ifanc Blaenau yn dweud bod eu hiechyd meddwl yn well

Roedd **75%** o bobl ifanc Blaenau yn dweud eu bod yn teimlo yn fwy annibynnol

### RHIENI IFANC

100% o'r rhieni ifanc a gymerwyd rhan yn dweud eu bod yn fwy annibynnol a bod newidiadau positif yn eu hiechyd meddwl.

Roedd 40% yn teimlo yn llai unig

### STAFF

100% o staff a gymerwyd rhan yn yr asesiad yn dweud eu bod wedi datblygu sgiliau ac yn cael boddhad personol o helpu eraill

## Y PRIF DDEILLIANNAU I'R BOBL IFANC

***Gwell annibynniaeth***

***Gwell iechyd meddwl***

***Teimlo yn llai unig gyda rhwydwaith gwell o gefnogaeth***

***Gwell iechyd corfforol***

£2,671 COST GWAITH ATALIOL YMA FESUL UNIGOLYN






COST O DDIGARTREFEDD FESUL UNIGOLYN YN £20,000 - £30,000 I WASANAETHAU STATUDOL



SOCIAL VALUE CYMRU

# Cydnabyddiaeth

Ni fuasai'r adroddiad hwn wedi bod yn bosibl heb gynnwys rhanddeiliaid allweddol er mwyn deall pa newidiadau sydd wedi digwydd a chanfod eu heffaith. Roedd cyfranogiad y rhai a gefnogwyd gan y gwasanaeth yn holl bwysig, ac rydym yn hynod ddiolchgar iddynt am rannu eu profiadau gyda ni, ac am eu parodrwydd i'n helpu i ddeall beth sy'n digwydd.

Diolch yn fawr i holl staff GISDA am eu cymorth er mwyn cael y data ar gyfer yr adroddiad yma. Maent i gyd yn amlwg yn frwdfrydig iawn ac yn angerddol dros eu gwaith, ac sydd wedi mynd y tu hwnt i'r disgwyliadau droeon i helpu'r pobl ifanc.

Diolch yn fawr

SOCIAL VALUE CYMRU

# 1.0 Cyflwyniad

Bydd yr adroddiad hwn yn dadansoddi gwerth y Prosiect Cymorth Tai ar gyfer pobl ifanc, a ddarparwyd gan GISDA. Bydd yr adroddiad yn ystyried effaith y gwasanaeth hwn ar y pobl ifanc, ond bydd hefyd yn ystyried ei werth i wasanaethau statudol eraill.

Trwy ymgysylltu a phobl ifanc sy'n derbyn y gwasanaethau, staff, a rhanddeiliaid eraill, a thrwy archwilio'r wybodaeth a'r data sydd ar gael, gwnaethpwyd amcangyfrifon priodol, ac fe'u cefnogir gan dystiolaeth eilaidd.

Bydd yr adroddiad hwn yn dadansoddi canfyddiadau'r prosiect yn ystod Ebrill 2021-Mawrth 2022 gan ddefnyddio fframwaith Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (*Social Return on Investment*/SROI) i gwblhau adroddiad gwerthuso hyd at Fawrth 2022.

## 1.1 PWRPAS A CHWMPAS

Dyma ragolwg Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (*Social Return on Investment*/SROI) i fesur gwerth cymdeithasol rôl y Prosiect Cymorth Tai gan GISDA yng Ngwynedd. Mae'r adroddiad hwn yn edrych yn benodol ar y deilliannau a'u gwerth i'r unigolion a gyfeiriwyd at y prosiect gydag amrywiol anghenion cymdeithasol megis teimlo'n unig neu gyda phryderon iechyd meddwl, ond yn benodol yn ddigartref neu ar risg o fod yn ddigartref.

Paratowyd yr adroddiad hwn i adolygu a chanfod y canlynol.

- Barn y buddiolwyr allweddol a fu'n rhan o'r prosiect, sef y pobl ifanc a gyfeiriwyd.
- Y deilliannau a brofwyd gan yr holl randdeiliaid perthnasol, ond yn bwysicaf oll, y pobl ifanc.
- Rhoi gwerth ar y gwasanaeth ac ateb y cwestiwn: 'a yw Prosiect Cymorth Tai a ddarparwyd gan

GISDA yn cynnig gwerth da am arian?'.

- Gweld pa newidiadau y gellir eu cyflwyno i'r gwasanaeth i gyflawni mwy o ddeilliannau a gwerth pellach i fuddiolwyr.
- Cydnabod gwerth y model hwn o weithio.

## 1.2 CYNULLEIDFA

Paratowyd yr adroddiad hwn ar gyfer cynulleidfaoedd mewnol ac allanol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Cyllidwyr** – Ariannwyd y gwasanaeth hwn gan Gronfa Cymorth Tai, gynt Cronfa Cefnogi Pobl, sydd yn cael ei weinyddu gan Cyngor Gwynedd ar ran Llywodraeth Cymru. Bydd angen i'r cyllidwyr ddeall y gwerth y mae eu buddsoddiad yn ei greu, a sut effaith mae'r prosiect wedi'i gael ar y gwasanaeth.
- **Rheolwyr Mewnol ac Aelodau Bwrdd** – Trwy fesur gwerth cymdeithasol y gwasanaeth hwn a deall beth yw'r deilliannau i'r unigolion, gellir gwneud penderfyniadau ar sail yr wybodaeth hon i reoli a chynllunio gwasanaethau.
- **Llunwyr Polisïau a Phenderfyniadau** –Er y byddai angen mwy o wybodaeth fanwl gywir i gael effaith ar bolisi a data, bydd yr adroddiad hwn yn helpu i ddangos yr effaith mae un o wasanaethau sydd yn derbyn grant Cymorth Tai yn ei gael.
- **Pobl ifanc** – Deall a chyfleu gwerth y gwasanaeth i'r rhai pwysicaf oll: y pobl ifanc sy'n derbyn y gwasanaeth.

# 2.0 Cefndir a Chyd-destun

## 2.1 Y MUDIAD ALLWEDDOL

Mae GISDA yn gweithredu fel elusen (Rhif Elusen 1068325) a chwmni cyfyngedig trwy warant (Rhif Cwmni 2484575). Sefydlwyd GISDA yn 1985 er mwyn cynnig lloches a chefnogaeth i bobl ifanc digartref yr ardal. Mae GISDA wedi datblygu yn fenter gymdeithasol er mwyn parhau i gynnig gwasanaethau i bobl ifanc bregus rhwng 16 a 25 mlwydd oed sydd yn byw yng Ngogledd Cymru. Maent yn cynnig amryw o brosiectau a gwasanaethau amrywiol i bobl ifanc o fewn Gwynedd.

Amcan GISDA yw i roi "cefnogaeth a Chyfleoedd i bobl ifanc digartref a bregus drwy ddarparu

- Llety a gwasanaethau cefnogol;
- Gweithgareddau creadigol ac artistig;
- Gweithgareddau therapiwtig, hamdden ac addysgiadol;
- Cyngor a gwybodaeth;
- Hyfforddiant, cyfleoedd gwirfoddoli a chyflogaeth"[1]

Mae eu nodau strategol yn cynnwys:

**LLAIS**

GISDA yn sicrhau bod llais pobl ifanc digartref a bregus yn ganolog i bopeth.

**LLETY**

GISDA yn gwmni sydd yn ymateb i anghenion llety a chefnogaeth pobl ifanc digartref a bregus

**CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD**

GISDA yn darparu cyfleoedd i bobl ifanc digartref a bregus drwy weithgareddau creadigol, artistig, therapiwtig, hamdden ac addysgiadol.

[1] www.gisda.org

**CYMUNED**

GISDA yn gwmni sydd yn cyfranogi a chwarae ei ran yn y gymuned er budd pobl ifanc digartref a bregus.

**CYNALIADWYEDD**

GISDA yn datblygu cynlluniau, mentrau cymdeithasol a meithrin partneriaethau i sicrhau cynaliadwyedd y cwmni.

Yn ogystal a'r Prosiect Cymorth Tai maent hefyd yn rhedeg nifer o brosiectau eraill gan gynnwys:

**Academi Cyfleon** – Prosiect sydd yn cefnogi pobl ifanc i greu llwybr clir er mwyn arwain i gyflogaeth ac i fyw yn annibynol. Mae hwn yn cynnwys gwasanaeth galw i mewn yng Nghaernarfon a Blaenau Ffestiniog ac yn agored i unrhyw berson ifanc rhwng 16 a 25 oed. Maent yn cynnig amryw o gefnogaeth gan gynnwys cymorth i greu CV a gwella sgiliau cyfweliad, profiad gwaith a gwirfoddoli, gweithgareddau i godi hyder, cefnogaeth cyflogaeth therapiwtig a chefnogaeth i chwilio am swyddi neu hyfforddiant.

**Atal Digartrefedd** – prosiect wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru ac yn gweithio gyda grŵp o fudiadau i greu sesiynau o fewn ysgolion i blant blwyddyn 9 i godi ymwybyddiaeth o ddigartrefedd. Mae'r prosiect hefyd yn gyfrifol am chwilio am lety fforddiadwy i bobl ifanc ac yn derbyn nifer o gyfeiriadau uniongyrchol gan Gyngor Gwynedd.

**Ôl ofal** – Gwasanaeth sydd yn helpu pobl ifanc sydd wedi bod drwy'r system ofal. Mae gan GISDA ddau Gynghorydd Personol sydd yn cefnogi pobl ifanc ar faterion megis cefnogaeth emosiynol, materion tai, budd-daliadau, cyllidebau, chwilio am waith, rheoli ymddygiad a llawer mwy.

**Prosiect ieuenctid LHDT + /LGBTQ+** - Wedi ei ariannu gan y Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol mae'r prosiect yma yn cynnig cefnogaeth i bobl ifanc sy'n uniaethu fel LHDT+(Lesbiaidd, Hoyw,

Deurywiol a Thraws.) Mae clybiau wythnosol yng Nghaernarfon, Blaenau Ffestiniog a Pwllheli. Mae'r clwb yn le saff iddynt gael cymorth staff a hefyd cymryd rhan mewn gweithgareddau megis gemau, darllen a dysgu, bod yn greadigol a gwneud ffrindiau.

**Rhieni ifanc** – Mae GISDA yn gweithio gyda rhieni ifanc ac yn helpu i sicrhau hawliau iddynt a'u hysgogi i deimlo'n hyderus. Mae nifer o weithgareddau grŵp ac un i un ar gyfer y rhieni ifanc ac mae'r staff yn helpu gyda grantiau ar gyfer pethau penodol er enghraifft diwrnod allan neu ddillad i'r plant.

**Hwb ICAN** – Mae Hwb ICAN GISDA yn darparu cymorth cynnar therapiwtig i bobl ifanc 16 i 25 oed sydd yn cael trafferth gyda'u hiechyd meddwl a lles. Mae yna sesiynau galw i mewn ar gael a hefyd cymorth un i un a gellir trafod problemau dros baned a sgwrs. Gallant gyfeirio ymlaen at gwnsela os oes angen a mae nifer o weithdai yn cael eu cynnig ar faterion megis toriad perthynas, unigrwydd, profedigaeth, dyled a llawer mwy.

**Prosiect Tîm o Amgylch y Person Ifanc (TAPI)** - Roedd GISDA yn llwyddiannus i gael arian ar gyfer rhedeg y peilot yma drwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol Cyngor Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Y bwriad yw cael cydweithio gwell rhwng mudiadau statudol a thrydydd sector er mwyn sicrhau gwasanaeth a chefnogaeth lyfn i'r person ifanc.

Arianwyd yr adroddiad hwn drwy'r gwaith TAPI yma, ac felly er mae ffocws yr adroddiad yw gwerthuso Prosiect Cymorth Tai yn benodol, mae'n bwysig deall beth yw nod y prosiect yma a sut all y prif negeseuon gyfrannu tuag at y drafodaeth yma. Yn ystod y prosiect yma bydd GISDA yn[2]:

- Ymchwilio i'r dulliau mwyaf effeithiol o weithio gyda phobl ifanc bregus yng Ngwynedd gan geisio adnabod rhinweddau o fewn ymarfer sydd yn sicrhau ymyrraeth lwyddiannus gyda chanlyniadau da.

[2] www.gisda.org

- Casglu data a mapio anghenion pobl ifanc bregus yng Ngwynedd
- Adnabod y deddfwriaethau, polisïau a gweithdrefnau sydd yn berthnasol i bobl ifanc bregus
- Adnabod ac amlinellu'r rhwystrau sy'n wynebu pobl ifanc bregus
- Adnabod bylchau mewn darpariaeth er mwyn paratoi cynllun busnes mewn cydweithrediad gyda phobl ifanc i fynd i'r afael a'r rhwystrau a'r bylchau hynny
- Adnabod ffyrdd o wella cydweithio rhwng partneriaid yng Ngwynedd er budd pobl ifanc.
- Gofyn y cwestiwn a ydym yn clywed a gwrando ar leisiau pobl ifanc trwy lawr Bwrdd Pobl ifanc GISDA
- Treialu a mesur amryw o ymyraethau therapiwtig i bobl ifanc Gwynedd

## 2.2 AMLINELLIAD O'R GWASANAETH CYMORTH TAI

Mae Prosiect Cymorth Tai yn darparu cefnogaeth i bobl ifanc sy'n ddigartref neu mewn risg o fod yn ddigartref. Dyma brif brosiect GISDA o ran maint ac o ran nifer o staff. Cyfnyngir y nifer o bobl ifanc sy'n derbyn cefnogaeth i 62 ar unrhyw adeg ar draws Gwynedd. Yn ogystal mae yna wasanaeth Galw i Mewn hefyd ar gyfer rhai sydd eisiau cymorth. Caiff y gwaith ei ariannu drwy gronfa Cymorth Tai sydd yn cael ei weinyddu yn lleol gan Gyngor Gwynedd ar ran Llywodraeth Cymru. Bwriad y grant yma yw:

"Prif bwrpas y rhaglen Cefnogi Pobl yw helpu pobl i barhau mor annibynnol â phosib drwy ddarparu cefnogaeth o ansawdd uchel yn ymwneud â thai."[3]

Yn eu Cynllun Strategol maent yn pwysleisio'r ethos i "wneud gyda" nid "gwneud dros" er mwyn sicrhau bod deilliannau'r rhaglenni'n parhau. Mae'r gronfa yn cefnogi ystod o grwpiau defnyddwyr

[3] Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl Gwynedd (llyw.cymru)

gwasanaeth bregus gan gynnwys unigolion neu deuluoedd yn dianc rhag trais yn y cartref, pobl mewn perygl o fod yn ddigartref o bob oedran, pob gydag anghenion iechyd meddwl, anghenion camddefnyddio sylweddau, pobl gydag anabledd dysgu a phobl ifanc.

Nodau Cefnogi Pobl[4] yw:

• helpu pobl fregus i fyw mor annibynnol â phosib

• rhoi'r help sydd ei angen ar bobl er mwyn iddynt allu byw yn eu cartrefi eu hunain neu mewn hosteli, tai gwarchod neu mewn tai arbenigol eraill

• atal problemau yn y lle cyntaf, neu rhoi help mor fuan â phosib er mwyn lleihau'r galw am wasanaethau eraill megis iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, yr heddlu a'r system gyfiawnder

• rhoi help i gyd-fynd â'r gofal personol neu feddygol y bydd rhai pobl ei angen

• rhoi'r rhai sydd angen cefnogaeth wrth galon y rhaglen

• sicrhau gwasanaethau o safon uchel, sy'n cael eu darparu mor effeithlon ac effeithiol â phosib trwy gydweithio rhwng sefydliadau sy'n cynllunio ac yn ariannu gwasanaethau a'r rhai sy'n darparu gwasanaethau

• darparu cyllid ar gyfer cefnogaeth yn seiliedig ar yr angen

• hybu cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldebau.

Mae yna unedau tai yng Nghaernarfon, Felinheli, Llanrug, Blaenau Ffestiniog a Dolgellau. Mae'r unedau yn darparu llety ar gyfer 31 person ifanc gyda 26 lle ar gyfer person sengl a mae 5 uned teuluol. Tu hwnt i hynny mae yna gefnogaeth i 31 o bobl ifanc eraill o fewn cymunedau ledled Gwynedd. O ran y broses cyfeirio hyd at y gwasanaeth, mae Ffigwr 1 isod yn dangos y broses i'r person ifanc:

[4] Cynllun Gweithredol Cefnogi Pobl Gwynedd (llyw.cymru)

**Ffigwr 1**




Caiff y bobl ifanc gefnogaeth am gyfnod o amser ac mae'r amser yn amrywio fesul person. Mae'n ddibynnol ar faint o gymorth sydd ei angen er mwyn eu cael yn barod i fyw yn annibynnol a'r cefndir, ond yn aml mae rhai yn barod i symud ymlaen ond yn aros am lety addas.

Ar wefan GISDA maent yn nodi bod y gefnogaeth yn cynnwys y canlynol:

- Llety a thai
- Rheoli tenantiaeth
- Sgiliau byw a bywyd
- Rheoli arian
- Budd-daliadau lles
- Incwm a chyllid
- Addysg a hyfforddiant
- Cyflogaeth a gwirfoddoli
- Emosiynol ac iechyd meddwl
- Iechyd corfforol
- Cadw'n ddiogel a'n iach
- Iechyd rhywiol ac atal cenhedlu
- Amddiffyn a diogelwch
- Cymuned a chyfranogiad
- Creadigrwydd ac ysbrydoliaeth

Wedi i unigolion gael eu cyfeirio at y prosiect, maent yn cael eu rhoi gyda gweithiwr allweddol a fydd yn brif gyswllt iddynt yn ystod y cyfnod maent gyda GISDA. Un o'r camau cyntaf yw edrych ar eu cynllun cefnogaeth unigol sydd yn gyfle i adnabod beth yw'r prif elfennau o gymorth sydd ei hangen a nodi prif nodau ac amcanion unigol. Mae hyn yn gyfle hefyd i weld beth yw'r anghenion cychwynnol

megis cymorth meddygol, therapiwtig, ariannol ayb.

Yn ogystal â chael cymorth un i un gan eu gweithwyr allweddol, maent yn cael eu hannog i gymryd rhan yn holl weithgareddau GISDA fel sydd wedi cael eu rhestru uchod. Yn ogystal â hynny mi fydd staff GISDA yn cydweithio gyda nifer o fudiadau eraill er mwyn cynnig y gwasanaethau gorau i'r bobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Ysgolion a cholegau / Prifysgolion lleol
- Cyfleoedd gwirfoddoli / Mantell Gwynedd
- Tîm Iechyd meddwl a CAMHS
- Meddygon teulu
- Ymwelwyr iechyd
- Bydwragedd
- Canolfan waith
- Adran Gwaith a Phensiynau
- Gwasanaeth Prawf / Troseddwyr ifanc

## 2.3 CANFOD YR ANGEN A'R CYD-DESTUN STRATEGOL

Y diffiniad o pobl ifanc digartref sydd yn cael ei defnyddio gan y mudiad End Youth Homelessness Cymru yw,

"Youth homelessness occurs where an individual between the age of 13 and 26 is experiencing rooflessness or houselessness or is living in insecure or inadequate housing without a parent, family member or other legal guardian".[5]

[5] Home (feantsa.org)

Mae hwn yn ddiffiniad gan FEANTSA gan nad oes diffiniad swyddogol gan Llywodraeth Cymru.

Mae'r ystadegau sydd ar gael mewn perthynas â phobl ifanc digartref yn ddibynnol ar y bobl ifanc yn cyflwyno eu hunain yn ddigartref i'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth yn dangos nad ydy nifer yn gwneud hyn, felly mae'n debygol bod y gwir ffigwr yn llawer uwch. Y ffigwr statudol diweddaraf sydd ar gael yw o 2020/2021 ac roedd 6,777 cyflwyniad gan bobl ifanc (16-25) oedd yn teimlo eu bod ar risg o fod yn ddigartref. O'r rhain roedd 423 yn 16-17 mlwydd oed.

Mae'r data yma hefyd yn cael ei drafod gan Centrepoint sydd gyda banc data pobl ifanc digartref ym Mhrydain. Yn ei adroddiad 'Making homeless young people count:The scale of youth homelessness in the UK'[6], maent yn amcangyfrif bod 103,000 o bobl ifanc yn y DU wedi dod ar draws eu hawdurdod lleol gan eu bod yn ddigartref neu fod risg uchel o hynny. Y rheswm pennaf am hyn ydy eu bod mewn ryw fath o argyfwng. Wrth ddadansoddi'r data sydd ganddynt o awdurdodau lleol yn Lloegr, y prif resymau gan y bobl ifanc am adael eu lle sefydlog diweddaraf oedd;

- Rhieni ddim yn fodlon rhoi llety iddynt bellach (37%)
- Eraill ddim yn fodlon rhoi llety iddynt
- Wedi colli llety rhent oherwydd terfyniad neu rheswm arall
- Toriad perthynas treisgar
- Gadael gofal drwy awdurdod lleol, carchar, ysbyty neu sefydliad arall
- Toriad perthynas nad oedd yn dreisgar
- Trais neu aflonyddu
- Dyled
- Rhesymau eraill

[6] 10-making-homeless-young-people-count.pdf (centrepoint.org.uk)

Mae'r adroddiad hefyd yn ystyried ffactorau strwythurol sydd yn arwain at y ffigyrau yma o ddigartrefedd ac roedd y rhain yn cynnwys canran o blant mewn teuluoedd incwm isel, tai fforddiadwy, a marwolaethau oherwydd camddefnydd cyffuriau.

Cyhoeddwyd ymchwil gan Centrepoint, Prifysgol York a'r Joseph Rowntree Foundation yn 2007 ar ddigartrefedd ymysg bobl ifanc. Er bod yr adroddiad yma wedi dyddio bellach, mae yna dal rhai pwyntiau sydd yn parhau i fod yn berthnasol a gwerth eu trafod. Yn yr adroddiad trafodwyd nodweddion cyffredin ymysg y bobl ifanc digartref a oedd yn cynnwys;

- Nifer wedi profi gwrthdaro tymor hir yn y cartref, nifer yn dreisgar
- Yn dod o gefndiroedd tlawd
- Wedi rhedeg ffwrdd o'r cartref
- Wedi bod yn rhan o drosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Wedi cael ei diarddel o'r ysgol
- Wedi cael ei effeithio gan materion o fewn cymdeithas
- Nifer gyda phroblemau iechyd meddyliol a / neu gorfforol
- Mwy tebygol o gael problemau gydag alcohol a / neu chyffuriau
- Llawer ddim mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant

Ar y wefan End Youth Homelessness Wales (EYHC)[7] maent yn nodi bod ymchwil yn dangos bod 48% o bobl ddigartref wedi profi digartrefedd am y tro cyntaf cyn eu bod yn 21. Hefyd bod 73% yn profi digartrefedd mwy nac un waith, sydd yn dangos y posibilrwydd uchel ohono yn digwydd eto. Dylid felly ystyried effeithiolrwydd yr ymyrraeth er mwyn lleihau'r siawns o hyn yn ail ddigwydd.

[7] Why Treat Youth Homelessness Differently? — End Youth Homelessness Cymru 05/04/2022

Yn 2021 cyhoeddwyd adroddiad gan EYHC mewn cydweithrediad ag aelodau o grŵp llywio EYHC, sydd yn cynnwys GISDA, ar y map ffordd[8] i orffen digartrefedd ymysg pobl ifanc yng Nghymru. Yn yr adroddiad yma maent yn edrych ar yr ymchwil parod sydd ganddynt drwy wrando ar lais yr unigolion ifanc ac ystyried beth maent yn ei wybod, ac yna beth ddylai gael ei wneud i osgoi hyn yn y dyfodol. Y bwriad yw dylanwadu cynnwys Strategaeth Atal Digartrefedd Pobl Ifanc yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru ymysg pethau eraill.

1. Universal prevention – atal neu leihau'r risg o ddigartrefedd ar draws y boblogaeth sydd yn cynnwys osgoi tlodi, digon o dai fforddiadwy, lleihau gwahaniaethu, delio gydag Adverse Childhood experiences (ACEs)
2. Targeted prevention – Targedu gwasanaethau arbenigol ar gyfer pobl ifanc sydd gyda risg uchel gan gynnwys pobl ifanc sydd yn gadael gofal, carchar neu sefydliad iechyd meddwl.
3. Crisis prevention – Edrych ar atal digartrefedd o fewn amser penodol. Mae Deddf Tai (Cymru) 2014 yn rhoi pŵer i awdurdod lleol i ymyrryd pan maent yn cael rhybudd o ddigartrefedd o fewn 56 diwrnod. Gall hyn gynnwys cyfryngu teuluol yn gynnar iawn ar gyfer y rhai lle mae toriad perthynas yn rheswm.
4. Emergency prevention – cymorth argyfwng ar gyfer pobl ifanc ar risg ar unwaith, yn enwedig rhai yn cysgu yn 'rough'. Mae ymchwil yn dangos bod nifer sydd yn gadael cartref yn cysgu gydag aelodau eraill o'r teulu neu ffrindiau i ddechrau, ond i rai sydd yn gadael gofal nid yw hyn yn opsiwn ac maent yn aros mewn pabell neu ar y stryd. Gall hyn gynnwys cael 'community hosts' lle gall pobl ifanc mewn argyfwng aros gyda nhw am gyfnod.
5. Recovery Prevention – atal pobl ifanc rhag profi digartrefedd eto. Edrych ar lety cynhaliol a chymorth addas.

[8] Russell, H. Bridgeman, J. Rowlands, B. A Roadmap to Ending Youth Homelessness in Wales (2021)

Yn Rhaglen Strategaeth Cymorth Tai Cyngor Gwynedd 2022-2026 (drafft)[9], nodwyd mae'r uchelgais yw i sicrhau:

*"bod gan bawb gartref diogel sy'n diwallu eu hanghenion ac yn cefnogi bywyd iach, llwyddiannus a ffyniannus, lle rydym yn cydweithio gyda rhanddeiliaid i atal digartrefedd. A lle nad yw hynny'n bosibl, sicrhau ei fod yn brin, yn fyrhoedlog ac nad yw'n digwydd eto".*

Yn yr asesiad anghenion ar gyfer datblygu'r strategaeth yma, gwelwyd bod yna gynnydd mewn anghenion lluosog a'r angen am gefnogaeth ddwys. Mae problemau iechyd meddwl yn cynyddu yn enwedig gor-bryder ac iselder.

Y prif flaenoriaethau yw:

- Datblygu llety arhosiad byr mewn argyfwng, gan ganolbwyntio ar ddychwelyd adref neu at y teulu estynedig pan fo hynny'n ddiogel ac yn briodol.
- Yr angen i ddatblygu llety fforddiadwy h.y. llety un llofft i berson sengl, gyda chefnogaeth lefel isel/canolig.
- Mae angen cynnydd mewn darpariaeth o gefnogaeth lefel isel fel bo'r angen, i gynnal neu atal y perygl o ddigartrefedd.
- Darparu hyfforddiant yn Barod am Denantiaeth.
- Prosiectau Atal cynnar i leihau Digartrefedd. Gallai hyn gynnwys gweithio mewn ysgolion a gyda rhieni.
- Cynnydd yn y defnydd o wasanaethau cymodi teulu arbenigol.

---

[9] Rhaglen Strategaeth Cymorth Tai Cyngor Gwynedd 2022-2026. Drafft. Cyngor Gwynedd.

Y prif anghenion o ran darpariaeth pobl ifanc yn yr adroddiad yw ymestyn y ddarpariaeth ar draws y Sir, yn enwedig yn ardal Bangor a Pwllheli, a hefyd datblygu darpariaeth arbenigol LGBTQ+ yn y Sir.

Bwriad Deddf Tai (Cymru) 2014 yw gwella safon a rheolaeth yn y sector rhentu breifat, lleihau lefelau digartrefedd gan sicrhau bod ei atal yn ganolog i ddyletswyddau'r awdurdod lleol er mwyn helpu pobl sydd mewn perygl a helpu i gynyddu'r cyflenwad tai.

Cafwyd cynllun deng mlynedd gan Lywodraeth Cymru 2009 - 2019 i lywio'r ffocws a'r ymateb cenedlaethol ar yr hyn sy'n achosi digartrefedd. Y prif amcanion strategol yn y cynllun yma oedd:

- Atal digartrefedd ble bynnag bo hynny'n bosib;
- Gweithio ar draws ffiniau sefydliadau a pholisïau;
- Rhoi'r defnyddiwr gwasanaeth wrth galon y ddarpariaeth gwasanaeth;
- Sicrhau cynhwysiad cymdeithasol a mynediad cyfartal i wasanaethau;
- Gwneud y defnydd gorau o adnoddau.

Yn dilyn hyn yn 2021 cafwyd ymgynghoriad ar gynllun 'Rhoi terfyn ar ddigartrefedd: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026[10]' gan Lywodraeth Cymru. Trafodwyd sut roedd y pandemig wedi ei wneud yn bosib gweld darlun mwy clir o ddigartrefedd yng Nghymru gan fod angen sicrhau llety i bawb yn ystod y cyfnod ac felly 12,400 wedi cael ei rhoi mewn llety dros dro o Fawrth 2020 hyd dan y drafft yma. Yn y cynllun yma dywedodd Julie James MS bod angen ymateb gan bob sector i ddod a digartrefedd i ben ac nad cyfrifoldeb yr adran dai yn unig oedd hyn,

"We have to address the core structural issues of poverty and inequality, ensure the availability and effectiveness of universal and targeted prevention measures. We need to effectively respond to trauma and adverse childhood experiences, mental ill health and substance misuse and to the full

[10] Rhoi terfyn ar ddigartrefedd: cynllun gweithredu lefel uchel 2021 i 2026 [HTML] | LLYW.CYMRU

diversity of housing needs, including ethnic minority people and disabled people. This makes ending homelessness a cross sector priority relevant to health, social services, education, criminal justice, community services and our wider economy. The Action Plan recognises these issues and will demand an 'all public services' response."[11]

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014[12] yn edrych ar weddnewid y modd y cyflenwir Gwasanaethau Cymdeithasol. Hefyd, mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015[13] yn rhoi pwyslais ar:

- edrych ar bethau yn yr hirdymor
- gydweithio yn well gyda phobl a chymunedau, a gyda'i gilydd
- geisio rhwystro problemau rhag gwaethygu a gweithio mewn modd mwy cydgysylltiedig.

Un o egwyddorion sylfaenol Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yw ataliaeth ac ymyrraeth gynnar. Bydd yr adroddiad yma yn ystyried gwerth ymyrraeth cynnar a gwaith ataliol er mwyn paratoi pobl ifanc rhag bod yn ddigartref, a sicrhau eu bod yn cael cymorth i fyw yn annibynnol yn y dyfodol.

# 3.0 Methodoleg – Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau (*Social Return on Investment*/SROI)

O ofyn cwestiynau penodol i'r rhanddeiliaid sydd â'r profiad mwyaf helaeth o weithgaredd, gall SROI feintioli, ac yn y pen draw, roi gwerth ariannol ar effeithiau er mwyn eu cymharu â chostau creu'r effeithiau hynny. Nid yw hyn yn golygu y gall SROI ddweud beth yw "gwir" werth y newidiadau, ond trwy ddefnyddio amrywiol ffynonellau i fynegi gwerth ariannol, gall gynnig gwerthusiad o brosiectau

[11] Ending homelessness in Wales: a high level action plan 2021 to 2026 (gov.wales)
[12] Llywodraeth Cymru (2016) https://gov.wales/topics/health/socialcare/act/?lang=cy
[13] Llywodraeth Cymru (2016) http://gov.wales/topics/people-and-communities/people/future-generations-act/?lang=cy

sy'n newid y modd y caiff gwerth ei gyfrif – gan ystyried effeithiau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Yn ôl Social Value UK (2014):

*"Mae SROI yn ceisio cynnwys gwerthoedd pobl sydd yn aml wedi'u cau allan o'r marchnadoedd gan ddefnyddio'r termau a ddefnyddir mewn marchnadoedd, hynny yw: arian, er mwyn rhoi llais i bobl mewn penderfyniadau am ddyrannu adnoddau"*

Wedi'i seilio ar wyth egwyddor, mae SROI yn defnyddio profiadau'r bobl sydd wedi profi newidiadau yn eu bywydau, neu a fydd yn eu profi, fel sail ar gyfer dadansoddiad gwerthusol neu ragolwg, yn ôl eu trefn.

Mae mynd ati i fesur effaith mewn modd mwy holistig yn golygu y gellir cyfrif am newidiadau cadarnhaol, negyddol, bwriadol ac anfwriadol ar y Map Gwerth a grëir – ac yn y pen draw, o gymharu costau cymharol eu creu, pennir yr SROI. Dangosir y fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r SROI terfynol isod:

**SROI = Gwerth net presennol y buddion**
**———————————**
**Gwerth y mewnbynnau**

Er enghraifft, mae canlyniad o 4.50:1 yn dangos bod £4.50 o werth cymdeithasol yn cael ei greu am bob £1 a fuddsoddwyd.

Fodd bynnag, mae SROI yn llawer mwy na dim ond rhif. Stori newid yw SROI, sy'n cynnwys costau a buddion cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, gan ymofyn tystiolaeth feintiol ac ansoddol.

Mae dau fath o adroddiad SROI: ceir adroddiadau gwerthuso ac adroddiadau rhagolwg. **Gwerthusiad SROI yw hwn, yn edrych ar gyfnod Ebrill 2021-Mawrth 2022**. Nid yw SROI yn cynnig dull caeth o fesur gwerth cymdeithasol, ond yn hytrach, fe'i seilir ar saith egwyddor, a'r rhain sy'n tanategu sut y dylid

cymhwyso SROI. Bwriad yr egwyddorion hyn yw cynnig cysondeb, a chynnig hyblygrwydd ar yr un pryd i gydnabod a chynnwys profiadau amrywiol gwahanol bobl, ac fe'u hamlygir yn Ffigur 2.

**Ffigur 2 – Egwyddorion Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau [14]**




[14] www.socialvalueuk.org



SOCIAL VALUE CYMRU

Yr wythfed egwyddor sydd wedi ei ychwanegu yn fwy diweddar yw Bod yn Ymatebol. Mae mesur gwerth cymdeithasol yn gywir yn allweddol bwysig, ond wedyn nid oes pwrpas i hyn os nad ydym yn ymatebol i'r hyn mae'r data yn ei ddangos. Bwriad yr egwyddor yma felly yw edrych ar sut gallem reoli gwerth cymdeithasol ac ymateb i'n rhanddeiliaid yn fewnol, ond hefyd sut gallem gyfrannu tuag at nodau cenedlaethol. Mae'r egwyddorion hyn yn drosfwaol i bopeth a wnawn yn ystod y dadansoddiad, ac maent hefyd yn ffurfio fframwaith da i unrhyw fudiad ei ddilyn. Yn ogystal â'r egwyddorion, mae chwe cham i gynnal dadansoddiad SROI, fel y gwelir yn Ffigur 3.

**Ffigur 3 – Camau canfod Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiadau[15]**

Cam 1 Sefydlu cwmpas a chanfod y rhanddeiliaid allweddol

Cam 2 Mapio'r deilliannau

Cam 3 Tystiolaeth o'r deilliannau a phennu eu gwerth

Cam 4 Cadarnhau'r Effaith

Cam 5 Cyfrifo'r SROI


Cam 6 Adrodd, defnyddio a gwreiddio

Bydd gwahanol ddadansoddiadau yn defnyddio gwahanol dechnegau i gipio data, ond mae cadw at yr egwyddorion arfer da hyn yn sicrhau mai *sut* caiff effaith cymdeithasol ei fesur sy'n ganolog bob amser. O ganlyniad i hynny, caiff cadwyni newid eu creu ar gyfer pob rhanddeiliad perthnasol ar y Map Gwerth (Atodiad 1) sy'n mynegi'r broses o drawsnewid o'r mewnbynnau angenrheidiol, i'r

[15] www.socialvalueuk.org

allbynnau uniongyrchol, i’r deilliannau mesuradwy terfynol. Mae Ffigur 4 yn dangos elfennau sylfaenol y Gadwyn Newid, er mai mynegiad gor-syml yw hwn wrth ystyried newidiadau cymhleth.

**Ffigur 4 – Y Gadwyn Newid**




Gall mewnbynnau fod yn adnoddau ariannol neu anariannol. Er enghraifft, er bod arian yn angenrheidiol i brosiect, bydd sicrhau llwyddiant hefyd yn dibynnu ar bobl yn rhoi amser, arbenigedd ac adnoddau annirweddol eraill.

Yn aml, allbynnau gweithgareddau yw'r peth a fesurir, ond mae'n bwysig nodi nad yw allbynnau'n dangos llwyddiant neu fethiant gweithgareddau. Ystyriwch, er enghraifft, cwrs sy'n darparu cyngor a sgiliau i alluogi pobl i gael gwaith, a hwnnw'n mesur dim ond y nifer a fynychodd pob cwrs fel allbwn; nid yw hyn yn dangos llwyddiant neu fethiant cymharol deilliant hollbwysig y cwrs, sef: pobl yn cael gwaith. Beth bynnag yw'r gweithgaredd, dim ond trwy fesur y deilliannau y cawn sicrwydd bod yr ymyrraeth yn gweithio, ac ar hynny mae SROI yn canolbwyntio.

Y gwahaniaeth allweddol gydag SROI yw ei fod yn ein galluogi i roi gwerth i ddeilliannau perthnasol, ac wedyn defnyddir egwyddorion cyfrifo i lywio'r dadansoddiad tuag at ddealltwriaeth o effeithiau'r gweithgareddau. Fel nodir ar dudalen 19 uchod, gellir nodir

gwerth yn nhermau ariannol. Yn unol â'r egwyddor o beidio â gor-hawlio, rhaid gofyn cwestiynau allweddol am bob deilliant er mwyn deall gwerth y newid a ddaeth yn sgil yr ymyrraeth, sef:

- Pa mor hir fydd y newid yn parhau (parhad)?
- Pa mor debygol ydyw y byddai'r newid hwn wedi digwydd heb yr ymyrraeth (difuddiant)?
- Pwy arall gyfrannodd i'w greu (priodoliad)?
- A yw'r gweithgareddau hyn wedi dadleoli deilliannau a fuasai wedi digwydd yn rhywle arall (gwrthffeithiol)?
- Pa leihad fydd yng ngwerth y newid a greodd yr ymyrraeth mewn blynyddoedd i ddod (gostyngiad)?

Yn gryno, gall SROI fynegi dealltwriaeth o'r gwerth holistig a grëwyd ac a ddinistriwyd o ganlyniad i weithgareddau. O ddeall gwerth y deilliannau, rydym mewn gwell sefyllfa i'w rheoli gan ein bod yn deall yn well pa mor gymharol bwysig ydynt a gallwn dargedu strategaethau ac adnoddau'n fwy effeithiol. Nid ymgais i roi pris ar bopeth yw rhoi gwerth ariannol ar ddeilliannau; fe ddyluniwyd y dull i ganiatáu nid yn unig mesur ystyrlon o effeithiau, ond hefyd, yn bwysicach fyth, er mwyn eu rheoli ar ôl eu mesur. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i fudiadau'r trydydd sector, gan fod cadw at genhadaeth gymdeithasol yn gosod dyletswydd foesol ar ysgwyddau penderfynwyr i uchafu eu hadenillion cymdeithasol. Gall SROI bontio'r bwlch atebolrwydd sy'n aml yn bresennol rhwng y rhai sydd â'r grym i wneud penderfyniadau a'r rhai y bwriedir i'r penderfyniadau hynny eu targedu.

# 4.0 Ymgysylltu â Rhanddeiliaid a Chwmpas y Dadansoddiad

Cynnwys rhanddeiliaid yw hanfod SROI. Heb gynnwys rhanddeiliaid allweddol, nid yw'r canlyniadau'n ddilys – dim ond trwy ymgysylltu go iawn y gallwn ddeall pa newidiadau a wireddwyd neu gael rhagolwg ar y newidiadau yn eu bywydau. Dyma'r unig ffordd i SROI werthfawrogi'r rhai pwysicaf un.

I ddeall beth sy'n bwysig ar gyfer dadansoddiad, ystyrir a yw'r peth hwnnw'n berthnasol. Defnyddir y cysyniad hwn mewn cyfrifo confensiynol hefyd, ac mae'n golygu bod SROI yn canolbwyntio ar y rhanddeiliaid pwysicaf a'u deilliannau pwysicaf hwy, wedi'i seilio ar ddau gysyniad: perthnasedd ac arwyddocâd (gweler Ffigur 5). Mae un yn canfod a yw deilliant yn bwysig i randdeiliaid, a'r llall yn canfod gwerth perthynol y newidiadau. Yn y lle cyntaf, ar gyfer gwerthusiad Prosiect Cymorth Tai GISDA, adnabuwyd amrywiaeth o randdeiliaid fel rhai sy'n effeithio ar y prosiect, neu'n cael eu heffeithio arnynt ganddo. Mae Tabl 1 yn dangos yr holl randdeiliaid, gan nodi a oeddent yn cael eu hystyried yn berthnasol i'w cynnwys yn y dadansoddiad SROI ai peidio.

**Ffigur 5 – Egwyddor Perthnasedd**

**Perthnasedd**

Os yw rhanddeiliad neu ddeilliant yn berthynol ac yn arwyddocaol, yna mae'n berthnasol i'r dadansoddiad. Os yw'n bwysig i'r rhanddeiliaid ac o werth arwyddocaol, yna byddai ei hepgor o'r dadansoddiad yn cael effaith sylweddol ar y canlyniad.

**Perthynol**

Mae mater yn bwysig i'r dadansoddiad – wedi'i nodi naill ai gan randdeiliaid, neu drwy wybodaeth a phrofiad presennol o normau cymdeithasol rhanddeiliaid

**Arwyddocaol**

I ba raddau y mae mater yn bwysig – naill ai o ran bod yn bwysig i gyfran fawr o randdeiliaid neu'n bwysig iawn i gyfran is o randdeiliaid.



SOCIAL VALUE CYMRU

**Tabl 1 – Rhestr Rhanddeiliaid a Pherthnasedd**

| Rhanddeiliaid | Rhanddeiliad perthnasol? | Eglurhad |
|---|---|---|
| **Pobl ifanc** | **Ydi** | Y rhain yw buddiolwyr allweddol y gwasanaeth ac felly hwy yw'r rhanddeiliaid pwysicaf a bydd rhai o'r newidiadau y maent yn eu profi yn berthnasol ac yn arwyddocaol. |
| **Aelodau o'r teulu** | **Nac ydi** | Er bod potensial i'r newidiadau i'r unigolion gael effaith ar aelodau eraill o'r teulu, yn anffodus nid oeddem yn gallu ymgysylltu â hwy ar gyfer y dadansoddiad hwn. |
| **GISDA** | **Ydi** | Mae cyfranogiad GISDA yn hanfodol ar gyfer creu unrhyw newidiadau. Felly, rhaid cynnwys adnoddau ariannol a mewnbwn aelodau allweddol o staff. Fodd bynnag, ni chynhwysir y newidiadau a brofwyd gan y mudiad gan nad ydynt yn berthnasol i'r prosiect. |
| **GIG** | **Ydi** | Drwy ymgysylltu gyda phobl ifanc a staff, mae yna ddeilliannau yn ymwneud ag iechyd corfforol a lles meddyliol. Mae unrhyw effaith ar, a newidiadau i, unigolion yn debygol o effeithio ar y galw am wasanaethau o'r fath hefyd. |
| **CAMHS** | **Nac ydi** | Er y bydd newidiadau i'r rhain yn berthnasol, ni fydd y newidiadau yn arwyddocaol. Fodd bynnag, fe'u cydnabyddir wrth briodoli deilliannau, a gallai gwerthusiadau yn y dyfodol eu cynnwys i weld pa effaith y mae'r prosiect yn ei gael ar eu cyfraddau cyfeirio. |
| **Tim iechyd meddwl** | **Nac ydi** | Er y bydd newidiadau i'r rhain yn berthnasol, ni fydd y newidiadau yn arwyddocaol. Fodd bynnag, fe'u cydnabyddir wrth briodoli deilliannau, a gallai gwerthusiadau yn y dyfodol eu cynnwys i weld pa effaith y mae'r prosiect yn ei gael ar eu cyfraddau cyfeirio. |
| **Colegau a Phrifysgolion** | **Nac ydi** | Mae nifer o'r bobl ifanc yn mynychu coleg neu Brifysgol ac mae yna gyswllt uniongyrchol rhwng y gweithwyr allweddol a swyddogion lles y colegau. Er bod yna newidiadau, ni fydd y newidiadau yn arwyddocaol. |
| **Cyflogwyr** | **Nac ydi** | Mae nifer o'r bobl ifanc yn gweithio rhan amser neu lalwn amser a mae'r cymorth yn helpu i sicrhau y cymorth sydd ei angen i gynnal y gwaith. Er bod yna newidiadau, ni fydd y newidiadau yn arwyddocaol. |
| **Ymwelwyr Iechyd** | **Nac ydi** | Mae Gweithwyr Allweddol yn cael cyswllt gyda'r Ymwelwyr Iechyd ac yn aml yn mynychu apwyntiadau gyda'r rhiant ifanc. Er bod yna newidiadau, ni fydd y newidiadau yn arwyddocaol. |

| | | |
|---|---|---|
| **Cyngor Gwynedd - Gwasanaethau Cymdeithasol** | **Ydi** | Mae unrhyw effaith ar, a newidiadau i, unigolion yn debygol o effeithio ar y galw. |
| **Cyngor Gwynedd – Tîm Cymorth Tai** | **Nac ydi** | Er y bydd newidiadau i'r rhain yn berthnasol, gan na fyddai'r gwasanaeth hwn yn bosibl hebddynt, ni fydd y newidiadau yn arwyddocaol. |
| **Heddlu a'r System Trosedd a Chyfiawnder** | **Ydi** | Roedd nifer o'r bobl ifanc wedi bod mewn problemau gyda'r heddlu yn y gorffennol ac ambell un yn rhagweld byddent yn y carchar os nad byddent wedi cael cymorth. Byddai bod yn ddigartref hefyd yn golygu mwy o alw ar yr heddlu o bosib. |

## 4.1 YMGYSYLLTU GYDA RHANDDEILIAID

Egwyddor gyntaf SROI yw cynnwys rhanddeiliaid fel gwelwyd yn ffigwr 2. Felly, mae llawer o amser yn cael ei roi i adnabod pwy yw'r rhanddeiliaid, a sut orau i ymgysylltu gyda hwy. Y rhanddeiliaid gall ein helpu i ddeall y canlynol;

- Theori o newid
- Adnabod deilliannau
- Adnabod faint o newid sydd wedi digwydd
- Pwysigrwydd cymharol y deilliannau
- Pa werth gellir ei roi ar y deilliannau
- Gwrthffeithiol, priodoliad a gostyngiad
- Gwirio'r canlyniad

Roedd ymgysylltu gyda'r bobl ifanc eu hunain yn angenrheidiol er mwyn llwyddo i wneud yr holl bwyntiau a nodwyd uchod. Fodd bynnag, mae'n bwysig adnabod sensitifrwydd y profiad ac ymgysylltu gyda nhw mewn modd sensitif a lle maent yn gyfforddus. Roedd cymorth gan y gweithwyr allweddol a'r staff yn angenrheidiol ar gyfer hyn.

Cynhaliwyd sgwrs gychwynnol gyda'r Prif Swyddog a'r Pennaeth Datblygu i ddeall y cwmpas a'r rhestr posibl o randdeiliaid yn Rhagfyr 2021. Cafwyd hefyd ambell i gyfarfod gyda'r Arweinwyr Tîm a sesiwn hefyd gydag aelodau o staff er mwyn dechrau deall beth yw'r deilliannau i'r bobl ifanc o'u safbwynt nhw, ond hefyd deall os oedd yna ddeilliannau materol iddyn nhw fel aelodau staff.


Cynhaliwyd grwpiau ffocws yng Nghaernarfon a Blaenau Ffestiniog ac yma roedd rhai oedd yn newydd iawn i'r gwasanaeth a rhai oedd wedi bod yn gweithio gyda GISDA ers rhai blynyddoedd. Roedd rhai yn cael cymorth drwy'r Prosiect Cymorth Tai ac eraill wedi gwneud defnydd o'r gwasanaeth galw mewn. Roedd yna gynrychiolaeth hefyd o bob un o'r nodweddion a nodwyd isod.


Yn wahanol i ddulliau meintiol, nid oes dull ystadegol o ganfod y nifer perthnasol o gyfweliadau ansoddol y dylid eu cynnal. Yn hytrach, mae'n bwysig cynnal digon ohonynt i gyrraedd pwynt dirlawnder – hynny yw, pan nad oes gwybodaeth newydd yn cael ei ddatgelu. Er bod llawer o feddwl ac ystyriaeth wedi bod i'r cwestiynau ar gyfer y bobl ifanc am eu profiadau, er mwyn cadw at egwyddorion gwerth cymdeithasol a deall beth sydd wedi newid, cafwyd ymagwedd gyda strwythur llac er mwyn caniatàu iddynt ddweud beth sydd wedi newid o ganlyniad i'r cymorth gan y Gweithwyr Allweddol a GISDA. Mae'r hyblygrwydd o'r cwestiynau yn caniatàu iddynt ddweud y stori o'u persbectif hwy ac mae'r cwestiynau yn cynnwys beth maent yn ei wneud yn wahanol yn dilyn y newid maent wedi profi, pa mor hir maent yn digwydd i'r newid barhau, a hefyd yn bwysig os ydynt wedi profi unrhyw beth negyddol. Mi wnaeth y grwpiau ffocws bara tua 50-60 munud, a chyfweliadau unigol tua 20-30 munud. Roedd y bobl ifanc yn awyddus i drafod eu profiadau ac yn medru rhoi darlun o beth sydd wedi newid iddynt, ond hefyd beth allai fod wedi digwydd heb y gwasanaeth.


Gofynnwyd cwestiynau hefyd am yr effaith a phwy arall sydd wedi eu helpu yn y broses. Caiff y rhain eu trafod nes ymlaen yn yr adroddiad.


## 4.2 IS-GRWPIAU POSIBL O BOBL IFANC


Mae'n bwysig cydnabod nad yw pob unigolyn yr un fath. Gall deall bod gwahanol nodweddion yn cael effaith ar y data ein helpu i reoli a goleuo penderfyniadau. Felly, rhoddir ystyriaeth isod i nodweddion gwahanol, sef lleoliad y gwasanaeth, a ydynt yn rhiant, gendr, oedran, statws gwaith ac os ydynt yn cael eu hadnabod fel rhan o'r grŵp LGBTQ+. Mae'r diagramau isod yn cynrychioli'r is-grwpiau o unigolion a gymerodd ran yn y prosiect hwn.





Oedran y bobl ifanc
21 i 25
25%
16 a 17
27%
18 i 20
48%


Statws gwaith y bobl ifanc
Addysg
25%
NEET
58%
Gwaith rhan amser
9%
Gwaith llawn amser
8%




Fel gwelir uchod, mae 50% o'r bobl sydd yn cael cymorth gan GISDA yn adnabod eu hunain fel rhan o gymuned LGBTQ+ a mae 36% o'r rhain yn drawsrywiol.





Gosodwyd targed i gefnogi 62 o bobl ifanc ar draws Gwynedd ar unrhyw adeg, ond y realiti yn aml ydy bod yna restr aros fel arfer o bobl eisiau cefnogaeth ac mae GISDA yn cadw cysylltiad â chynnig cymorth yn ystod yr adeg yma. Yn ystod y cyfnod yma bydd y Swyddog Cyfeirio yn cadw cyswllt a rhoi sicrwydd iddynt, ond os ydynt wir yn ddigartref yna bydd yna gyfeiriad yr un diwrnod a bydd trefniadau i roi llety dros dro , er enghraifft mewn gwesty. Erbyn diwedd Mawrth 2022, cafwyd 453 o alwadau i'r gwasanaeth. Roedd 86 o bobl ifanc wedi defnyddio eu gwasanaeth galw mewn a 151 wedi cael cymorth drwy'r prosiect Cymorth Tai. Yn y cyfnod yma hefyd roedd 43 person ifanc ar y rhestr aros.

Ceir nifer o ystadegau arall am y bobl ifanc yn ystod y cyfnod


- Roedd 30% o'r galwadau mewn yn "sofa surfing" neu ar y stryd
- Y prif reswm am y cyfeiriad oedd toriad mewn perthynas, gyda 62% yn nodi hyn fel rheswm o fod yn ddigartref neu mewn risg o ddod yn ddigartref
- 66% gydag anghenion iechyd meddwl

- 33% gyda diagnosis iechyd meddwl
- 11% wedi gadael gofal

Cyfeirio gan:




Rheswm dros cyfeiriad:




Mae cynnwys rhanddeiliaid o’r cychwyn cyntaf yn hanfodol er mwyn dylanwadu ar unrhyw brosesau gwaith papur a monitro i ddeall pa newidiadau posibl all ddigwydd. Roedd GISDA eisoes yn casglu data unigol ar bob unigolyn sydd yn dod o dan y Prosiect Cymorth Tai fel rhan o’r cynllun unigol sydd ganddynt. Fodd bynnag, gan fod angen gofyn ambell i gwestiwn ychwanegol er mwyn gwneud dadansoddiad SROI fe rannwyd holiadur ychwanegol gyda’r bobl ifanc. Mae’r gwaith papur i’w weld yn Atodiad 5.

Nawr fod y rhanddeiliaid sy’n berthnasol i’r dadansoddiad wedi’u pennu, dengys Tabl 2 faint y poblogaethau, maint y sampl a ymgysylltwyd â hwy a’r dull o ymgysylltu.

**Tabl 2 – Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**

| Rhanddeiliaid | Maint y boblogaeth | Dull ymgysylltu |
|---|---|---|
| **Pobl Ifanc** | **237 yn cynnwys 151 wedi derbyn cefnogaeth drwy Cymorth Tai a 86 drwy gwasanaeth galw mewn** | 21 x cyfweliad wyneb yn wyneb<br>28 x ymateb Survey Monkey<br>18 x Dadansoddi data gwaelodlin ac adolygu data GISDA |

| | | |
|---|---|---|
| **GISDA** | **1** | Cyfarfod gyda cynrychiolaeth o staff<br>Cyfarfodydd gyda'r Arweinwyr Tîm<br>Cyfarfodydd rheolaidd gyda Pennaeth Datblygu a Rheolwr TAPI<br>Cyfarfod gyda Rheolwr Cyllid<br>8 x wedi ymateb i'r holiadur staff |
| **Tîm Cymorth Tai, Cyngor Gwynedd** | **1** | Cyfarfod gyda'r Rheolwr lleol |
| **CAMHS** | **1** | Cyfarfod gyda un o'r rheolwyr |

# 5.0 Mewnbynnau'r Prosiect

Yn y rhan hon o'r adroddiad, disgrifir y mewnbynnau oedd eu hangen ar amryw o randdeiliaid. Mae rhai mewnbynnau'n ariannol, a rhai eraill yn anariannol – ond lle bynnag fo'n bosibl, rhoddir gwerth ariannol i fewnbynnau.

## 5.1 POBL IFANC

Mae'r gwasanaeth hwn am ddim i'r rhai sy'n ei dderbyn, ond mae angen rhai mewnbynnau anariannol hefyd i sicrhau unrhyw newidiadau. Mae eu parodrwydd i weithio ac ymddiried yn eu gweithwyr allweddol a chymryd rhan yn y gweithgareddau'n hanfodol i sicrhau unrhyw ddeilliannau. Roedd nifer yn egluro bod ganddynt lefel isel iawn o hyder wrth gyrraedd ac yn ei chael yn anodd iawn i gael ffydd mewn pobl ac yn y system. Disgrifiwyd gan rai aelodau o staff sut mae nifer yn gwrthdaro gyda nhw yn yr wythnosau, weithiau misoedd, cyntaf gan nad ydynt yn medru ymddiried ynddynt a gan eu bod yn eu gweld fel mudiad arall sydd yn eu golwg nhw am eu methu ac am droi cefn arnynt.

Nid pawb sydd eisiau cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaith, ac mae yna ryddid iddynt gael penderfynu beth maent eisiau gwneud. Mae'r amser mae pob unigolyn yn ei gymryd i ddechrau agor fyny ac ymgysylltu yn amrywio ac mae hyn yn ddibynnol ar y cefndir a'r sefyllfa unigol. Mae angen cydnabod y mewnbwn gan y bobl ifanc ar ei siwrnai i ddod yn annibynnol a'r dewrder i ddechrau gwneud pethau yn unigol lle mae yna lai o afal llaw dros gyfnod.

Yn y Cynllun Cefnogaeth wrth ddechrau at y Prosiect, maent yn cytuno i'r isod:

- I ddangos parch tuag at staff GISDA a'r defnyddwyr gwasanaeth eraill
- I weithio gyda fy ngweithiwr allweddol a mynychu sesiynau cefnogaeth

- I weithio gyda fy ngweithiwr allweddol i ddatblygu fy sgiliau ac fy helpu i gyrraedd fy nôd
- I weithio tuag at gyfleoedd addysgiadol neu waith
- I fynychu cyfarfodydd yn rheolaidd i edrych ar fy nghynnydd a diweddaru fy nodau.
- I ddweud wrth fy ngweithiwr allweddol os oes unrhyw newid o ran llety, incwm, cyflogaeth, hyfforddiant, buddion tai, iechyd ayb.

## 5.2 GISDA

Mae rôl y gweithwyr allweddol yn hanfodol ac mae cael y sgiliau amrywiol er mwyn cyflawni'r gwaith yma angen cael ei gydnabod. Fel dywedodd rhai aelodau o staff, mae'r amrywiaeth sydd ei angen yn y rôl yma yn anodd ei ddal mewn disgrifiad swydd ond mae'r gallu i fod yn hyblyg a delio gyda sefyllfaoedd amrywiol o ddydd i ddydd yn bwysig. Mae bod yn glust i wrando gydag empathi yn bwysig a chael balans o gael eich gweld fel rhywun gallech ymddiried ynddo ond hefyd deall bod angen awdurdod ar adegau hefyd.

Gellir gweld sut mae'r staff yn dod i gael eu gweld fel teulu i'r bobl ifanc, lle maent yn sicrhau eu bod yn mynychu apwyntiadau pwysig, rhoi cyngor ar sut i wneud pethau sylfaenol megis coginio, talu biliau, gofalu am hylendid, ac ar adegau arwain a bod yn fwy cadarn pan sydd angen.

Roedd yn amlwg hefyd o'r sgyrsiau a'r gwaith arsylwi fod y gwaith yn medru bod yn heriol iawn ar adegau a gall cael effaith ar eu hemosiynau nhw hefyd. Cafwyd enghreifftiau o ddigwyddiadau lle'r oedd rhai o'r bobl ifanc wedi ceisio gwneud niwed i'w hunain a'r staff wedi gorfod helpu, mynd a nhw i'r ysbyty ac aros gyda nhw am oriau.

GISDA sy'n rheoli'r mewnbwn ariannol. Rhoddwyd mewnbwn ariannol o £633,081.96 yn y

cyfnod Ebrill 2021- Mawrth 2022 gan grant Cymorth Tai sydd yn cael ei ddyranu gan Cyngor Gwynedd. Talodd hwn am gyflogau'r Gweithwyr Allweddol, Arweinwyr Tîm a chanran o oriau'r Tîm Rheoli a Thîm Gweinyddol. Mae pob unigolyn yn cael nifer o oriau penodol yn dibynnu ar yr anghenion a dyma sut mae'r gwaith yn cael ei ddyrannu. Ar gyfartaledd mae pob gweithiwr cefnogol yn cefnogi tua 8-10 o unigolion. Eto, os oes rhai achosion mwy dwys mae hyn yn amrywio. Y realiti weithiau ydy bod rhai unigolion eisiau mwy o amser ar rhai adegau ac felly mae hyblygrwydd yn bwysig.

Mae'r grant yma hefyd yn talu am gostau teithio, gorbenion megis swyddfa, ffônau symudol, cyfrifiaduron ayb, lwfans sifft cysgu mewn, costau hyfforddiant ac yswiriant. Mae yna hefyd arian tuag at weithgareddau sydd yn cael eu cynnal ac ambell drip.

## 5.3 CYFANSWM GWERTH ARIANNOL Y MEWNBYNNAU

Cyfrifwyd mai cyfanswm mewnbynnau'r prosiect dros y cyfnod 12 mis cyfan yw £633,081.96, sy'n cynnwys mewnbynnau ariannol ac anariannol gan yr amrywiol randdeiliaid a enwir uchod. Dangosir yr wybodaeth hon yn Nhabl 3, a chaiff ei gymharu â'r costau fesul unigolyn.

**Tabl 3 – Cyfanswm Gwerth Ariannol Mewnbynnau ar gyfer Gwasanaeth Cymorth Tai**

| Rhanddeiliad | Mewnbwn ariannol | Mewnbwn anariannol | Cost fesul unigolyn |
|---|---|---|---|
| **Pobl ifanc** | N/A | Parodrwydd i gymryd rhan a chymryd y camau a nodwyd. Ffydd yn y gweithwyr cefnogol a staff GISDA. | N/A |
| **GISDA** | £633,081.96 | Rheolaeth strategol, amser, arbenigedd | |
| **Cyfansymiau** | **£633,081.96** | | **£2,671 fesul unigolyn ar gyfer 237 o bobl** |

# 6.0 Allbynnau, Deilliannau a Dangosyddion

## 6.1 ALLBYNNAU

Allbynnau uniongyrchol y Prosiect Cymorth Tai yw'r nifer o gyfeiriadau i'r prosiect a faint o bobl ifanc cafodd gefnogaeth yn ystod y cyfnod. Yn y cyfnod o Ebrill 2021 – Mawrth 2022 , cafwyd 453 o alwadau mewn, ac roedd 237 wedi cael cefnogaeth tai. O'r rhain cafodd 151 gymorth drwy'r prosiect Cymorth Tai a 86 arall wedi derbyn cymorth drwy'r gwasanaeth galw i mewn. Mae'r amser mae pobl ifanc yn ei dderbyn o ran cymorth yn amrywio. Mi fydd y cytundeb wrth iddynt ddechrau a'r oriau sydd yn cael ei neilltuo gan weithwyr allweddol yn amrywio yn ddibynnol ar anghenion. Fel nodwyd eisioes, mi gall gymryd peth amser i rai ddechrau cydweithio a bod yn hyderus yn y broses oherwydd y problemau roeddent wedi eu hwynebu. Er enghraifft gall un person cael dros 2,000 o oriau o gefnogaeth dros gyfnod o amser. Ar gyfartaledd mae unigolion yn cael cymorth am y nifer o ddyddiau canlynol:

Direct Access (hosteli) = 391 diwrnod

Dispersed (fflatiau symud ymlaen) = 484 diwrnod

Floating support / Cymorth wedi iddynt gael llety eu hunain = 217 diwrnod

Bydd nifer yn symud o mlaen o un gwahaniaeth i'r llall felly fel all un person gael dros 1,000 o ddiwrnodau o gefnogaeth.

Ar gyfer y map gwerth a'r asesiad yma, penderfynwyd edrych ar y 237 yn unig er mwyn peidio a gor-hawlio a gan nad oedd ymgysylltu wedi digwydd gyda rhai oedd wedi galw yn unig. Hefyd, gan mai sampl ddefnyddwyd, mae'r sampl yn edrych ar ganran o'r bobl ifanc yn unig er mwyn peidio a gor-hawlio, felly edrychwyd ar 80% o'r cyfanswm ac mae hyn yn torri lawr i'r canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| Cyfanswm | | 80% a’r nifer yn y map gwerth |
| 151 Cefnogaeth Tai | 29 Rhiant ifanc | 23 |
| | 49 Pobl ifanc sengl yn Blaenau | 39 |
| | 73 Pobl ifanc sengl Caernarfon | 58 |
| 86 Gwasanaeth galw mewn | 86 pobl ifanc wedi cael gwasanaeth yma | 68 |

Pan mae’r person ifanc yn derbyn gwasanaeth mae ganddynt fynediad at weithwyr allweddol ac yn derbyn cymorth un i un. Yn y man cychwyn byddant yn rhoi Cynllun Cymorth yn ei le er mwyn edrych ar yr anghenion a’r camau sydd angen ei gymryd tuag at gyrraedd nodau maent yn gosod,

“Your support should help your journey to work towards living independently while giving you as much control over your own life as possible while gaining opportunities to participate within your own community.”

Gellir gweld y ddogfen llawn yn atodiad 7. Yn y ddogfen mae’n cyfeirio at gyfrifoldebau y Gweithwyr Allweddol ac mae’r cymorth yn cynnwys y canlynol:

- Llety
- Sgiliau byw’n annibynnol
- Incwm a cyllid
- Addysg a hyfforddiant
- Cyflogaeth a gwirfoddoli

- Perthnasau
- Rhiantu
- Diogelwch
- Emosiynau / Iechyd meddwl
- Iechyd corfforol
- Ymddygiad gwrth-gymdeithasol
- Cyffuriau / alcohol
- Gweithgareddau creadigol / ystyrlon

Yn ogystal â chael cymorth un i un gyda'u gweithwyr allweddol, mae yna hefyd raglen o weithgareddau ar gael yng Nghaernarfon ac ym Mlaenau Ffestiniog. Mae esiampl o raglenni sydd ganddynt yn atodiad 6. Rhestrir rhai o'r gweithgareddau amrywiol cafodd ei nodi yn y cyfweliadau isod

- Clwb bobl ifanc LGBTQ+
- Sesiynau ICAN – sesiynau creadigol / celf
- Grŵp mam a babi
- Academi cyfleon – paratoi at fyd gwaith
- Yoga
- Sesiynau coginio
- Caffi Creu
- Mynd am dro

- Bwrdd pobl ifanc
- Studio GISDA
- A llawer mwy

Lle mae'r cyfarfodydd un i un gyda gweithwyr allweddol yn hanfodol, mae'r gweithgareddau yma yn bethau ychwanegol sydd ar gael iddynt. Roedd nifer a gymerodd rhan yn cymryd rhan yn y gweithgareddau yma. O'r rhai wnaeth ymateb i'r holiadur roedd 32% yn mynychu Panel Pobl Ifanc, 18% Caffi Creu, 11% ICAN, 18% Academi Cyfleon, 32% Clwb LGBTQ+, 32% hyfforddiant, 61% tripiau, 39% mynd i gerdded.

Mae saith o Weithwyr Allweddol i gyd a dau Gweithiwr Cefnogol ac ar gyfartaledd mae pob gweithwyr allweddol yn gyfrifol am 8-10 person ifanc. Gall hyn amrywio yn dibynnu ar anghenion y bobl ifanc. Yn ogystal hefyd bydd staff yn cysgu mewn yn yr hosteli yn eu tro ac mae rhywun ar ddyletswydd iddynt 24 awr y diwrnod pob diwrnod yr wythnos.

Dangosir Cadwyn Newid ar gyfer pobl ifanc yn Atodiad 2 a 3, sy'n dangos stori'r hyn a all ddigwydd iddynt, ac mae Tabl 4 isod yn rhoi crynodeb o'r holl randdeiliaid a'u hallbynnau ac yn edrych ar y deilliannau posibl a gafodd eu hystyried ar ôl ymgysylltu â'r holl randdeiliaid. Rhoddir ystyriaeth i beth gaiff ei gynnwys a'i hepgor, ac yna caiff ei ddangos yn y Gadwyn Newid.

**Tabl 4 – Deilliannau'r Rhanddeiliaid**

| Rhanddeiliad | Allbynnau | Deilliannau | Wedi'i gynnwys / Wedi'i hepgor |
|---|---|---|---|
| **Pobl ifanc sydd yn rieni** | Pobl ifanc sydd yn rieni yn cael eu cyfeirio at GISDA derbyn cymorth dwys am 12+ o fisoedd ar gyfartaledd a chymorth am gyfnod ar ol cael llety annibynnol | Gwell sgiliau | Wedi'i hepgor – Mae'r bobl ifan cyn cael mynediad at nifer o weithgareddau ac hyfforddiant sydd a gwell sgiliau i fyw yn annibynnol a sgiliau ar gyfer gwaith. Fodd bynnag, nid yw'n ddeilliant allweddol ac mae'n arwain at y deilliannau eraill sydd angen i ni eu rheoli. Caiff ei gynnwys yn y Gadwyn Newid. |
| | | Gwell hunan hyder | Wedi'i hepgor – Dyma ddeilliant canolraddol sy'n arwain at holl ddeilliannau terfynol y prosiect hwn. Eglurodd llawer o'r unigolion bod cael cymorth gan y gweithiwr cefnogol a mynediad at weithgareddau amrywiol wedi helpu i weld newid positif yma. |
| | | Cael llais fel rhiant a gwell hyder fel rhiant | Wedi'i hepgor – Derbyniodd llawer o'r pobl ifanc oedd yn rhieni gymorth unigol a oedd yn eu helpu i godi ei hyder i wneud penderfyniadau a gwybod mai nhw oedd gyda'r hawl i wneud y dewis gorau i'r plant. Dyma ddeilliant canolraddol sy'n arwain at holl ddeilliannau terfynol y prosiect hwn. |
| | | **Teimlo yn fwy positif ar gyfer y dyfodol ac yn fwy annibynnol** | Wedi'i gynnwys – Dyma ddeilliant allweddol a brofwyd gan rai unigolion ac mae'n arwyddocaol ac yn berthnasol. |
| | | **Gwell iechyd meddwl** | Wedi'i gynnwys – Dyma ddeilliant allweddol a brofwyd gan rai unigolion ac mae'n arwyddocaol ac yn berthnasol. |
| | | Mynediad at loches | Wedi'i hepgor – Dyma ddeilliant canolraddol sy'n arwain at holl ddeilliannau terfynol y prosiect hwn. Eglurodd llawer o unigolion bod cael mynediad at loches a lle eu hunain yn allweddol bwysig a bod cael y cymorth staff yn ochr hyn yn gwneud gwahaniaeth |
| | | Mwy o gyfleon i gymdeithasu | Wedi'i hepgor – Dyma ddeilliant canolraddol sy'n arwain at holl ddeilliannau terfynol y prosiect hwn. Roedd cael cyfle i siarad gyda eraill mewn sefyllfa tebyg yn bwysig. |
| | | Teimlo yn well cael amserlen a patrwm i'r diwrnod | Wedi'i hepgor – Dyma ddeilliant canolraddol sy'n arwain at holl ddeilliannau terfynol y prosiect hwn. Eglurodd llawer o unigolion bod cael rhywbeth i edrych ymlaen ato yn arwain at deimlo'n llawer hapusach a mwy gobeithiol am y dyfodol. |
| | | **Llai unig / ynysig** | Wedi'i gynnwys – Dyma ddeilliant allweddol a brofwyd gan rai unigolion ac mae'n arwyddocaol ac yn berthnasol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gwell iechyd corfforol | Wedi'i hepgor – Er bod rhai wedi cyfeirio at newid iechyd corfforol, nid oedd y deilliant yma yn faterol i'r grŵp yma. Roedd y newid ar gyfartaledd yn 18.5% yn yr arolwg ac felly yn methu'r prawf o fod yn arwyddocaol. |
| **Pobl ifanc sengl** | Nifer o bobl ifanc sengl wedi derbyn cymorth gan GISDA am gyfartaledd o 24 mis | Newid ymarferion drwg | Wedi'i hepgor – Dyma ddeilliant canolraddol sy'n arwain at holl ddeilliannau terfynol y prosiect hwn. Roedd llawer yn son am broblemau roeddent wedi eu hwynebu yn y gorffennol gan gynnwys ymarferion niweidiol a phroblemau ymddygiad. |
| | | Gwell mynediad at wasanaethau | Wedi'i hepgor – Dyma ddeilliant canolraddol sy'n arwain at holl ddeilliannau terfynol y prosiect hwn. Roedd cael mynediad gwell at wasanaethau yn bwysig ond hefyd cael cymorth yn y camau cyntaf yma i ymgysylltu gyda nhw. Roedd nifer o'r staff yn mynychu rhai o'r apwyntiadau gyda nhw yn y cychwyn. |
| | | Mwy o gyfleoedd i gymdeithasu | Wedi'i hepgor – Dyma ddeilliant canolraddol sy'n arwain at holl ddeilliannau terfynol y prosiect hwn. Roedd hyn wedi ei golli yn ystod y cyfnod Covid ond yn yr amser yma roedd mwyafrif o'r gweithgareddau wedi ail gychwyn. |
| | | **Gwell iechyd meddwl** | Wedi'i gynnwys – Dyma ddeilliant allweddol a brofwyd gan rai unigolion ac mae'n arwyddocaol ac yn berthnasol. |
| | | **Teimlo yn llai ynysig a cael rhwydwaith gwell o gefnogaeth** | Wedi'i gynnwys – Dyma ddeilliant allweddol a brofwyd gan rai unigolion ac mae'n arwyddocaol ac yn berthnasol. |
| | | **Gwell annibyniaeth** | Wedi'i gynnwys – Dyma ddeilliant allweddol a brofwyd gan rai unigolion ac mae'n arwyddocaol ac yn berthnasol. |
| | | **Gwell iechyd corfforol** | Wedi'i gynnwys – Dyma ddeilliant allweddol a brofwyd gan rai unigolion ac mae'n arwyddocaol ac yn berthnasol. |
| | | Ymdeimlad o berthyn / bod yn rhan o deulu | Wedi'i hepgor – Dyma ddeilliant canolraddol sy'n arwain at holl ddeilliannau terfynol y prosiect hwn. Roedd hyn yn bwyig i'r unigolion ac i lawer yn brofiad newydd ac roedd hyn yn arwain at deimlo yn llai ynysig. |
| **GIG** | Llai o alw am | **Llai o alw am gymorth statudol sydd yn cyd fynd gyda** | Wedi'i gynnwys – Er ei bod yn ddyddiau cynnar o ran gweld newidiadau, roedd rhywfaint o ddata ar gael, a defnyddiwyd data o fodelau presgripsiwn cymdeithasol eraill hefyd i gael |



SOCIAL VALUE CYMRU

| | | | |
|---|---|---|---|
| | wasanaethau | **digartrefedd** | rhagolwg o'r canlyniadau. |
| | | **Llai o alw am ambiwlans** | Wedi'i gynnwys – Dyma ddeilliant allweddol a brofwyd gan rai unigolion ac mae'n arwyddocaol ac yn berthnasol. |
| | | **Llai o alw am ymweliadau brys i'r ysbyty** | Wedi'i gynnwys – Dyma ddeilliant allweddol a brofwyd gan rai unigolion ac mae'n arwyddocaol ac yn berthnasol. |
| | | Llai o alw am apwyntiadau cleifion allanol yn yr ysbyty | Wedi'i hepgor – Er bod rhywfaint o ddata ar gael, nid oes digon eto i'w gynnwys yn y map effaith, felly canolbwyntio ar y deilliannau i'r unigolion ar hyn o bryd. |
| **Cost o digartrefedd i fudiadau yn cynnwys Adran Iechyd, Cyfiawnder a Throsedd, Addysg, Adran Gwaith a Phensiynau,** | Llai o alw am wasanaethau | Llai o ymweliadau gan y gweithiwr cymdeithasol | Wedi'i gynnwys – Dyma ddeilliant allweddol a brofwyd gan rai unigolion ac mae'n arwyddocaol ac yn berthnasol. |



SOCIAL VALUE CYMRU

**Astudiaeth Achos**

Cafodd Lewis ei gyfeirio at GISDA gan ei fod yn ddigartref ac yn 'sofa surfing' wedi toriad mewn perthynas gyda'i dad. Cafodd le yn un o hosteli GISDA mewn lleoliad argyfwng gan ei fod o dan 18, yn ddigartref a newydd ymadael o'r ysbyty wedi iddo geisio cymryd ei fywyd.

Roedd iechyd meddwl Lewis ar yr amser yn ddyrys oherwydd y trawma yn dilyn cyfnodau anodd yn ei fagwraeth ac roedd wedi bod mewn yn yr ysbyty sawl gwaith. Roedd yn derbyn cefnogaeth gan CAMHS ac yn cyd-weithio yn dda gyda nhw ac yn ymateb i'w therapi.

Yn GISDA, mi wnaeth fagu perthynas dda gyda'i weithiwr allweddol ac yn cyd-weithio yn dda ac yn agor fyny am ei broblemau. Roedd y gweithiwr allweddol yn cyd-weithio gyda'i gydlynydd gofal ac roedd yn sicrhau ei fod yn parhau i fynychu ei sesiynau gyda CAMHS.

Roedd cynllun gofal wedi ei wneud ar y cyd â Lewis yn ogystal â chynllun diogelwch er mwyn cadw golwg ar ei iechyd meddwl. Drwy gymorth CAMHS a GISDA mae wedi datblygu strategaethau er mwyn delio gyda'i iechyd meddwl ac yn fwy tebygol o adnabod pan mae eisiau cymorth.

Dros amser fe wnaeth ei hyder wella ac roedd yn ymgysylltu a chymryd rhan yn y gweithgareddau ac yn aelod brwd o'r Panel Pobl Ifanc. Mae hefyd wedi datblygu nifer o sgiliau er mwyn byw yn annibynnol gan gynnwys rheoli arian.

Bellach mae Lewis wedi symud ymlaen i lety 'symud ymlaen' GISDA ac yn gwirfoddoli ar nifer o brosiectau GISDA. Mae'n teimlo yn llawer mwy positif am y dyfodol ac yn frwdfrydig i fod yn Nyrs Plant yn y dyfodol ac yn gwirfoddoli mewn ysgol er mwyn datblygu ei sgiliau. Mae hefyd wedi ail ddatblygu perthynas gyda'i rieni.

## 6.2 DEILLIANNAU A DANGOSYDDION

Fel y pwysleisiwyd eisoes, dim ond trwy fesur deilliannau y gallwn fod yn sicr bod gweithgareddau'n effeithiol i'r rhai pwysicaf un yn y prosiect hwn. Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn trafod y deilliannau a brofwyd gan bob rhanddeiliad perthnasol, a hefyd yn archwilio'r deilliannau sy'n cynrychioli pen draw'r daith yn y cadwyni newid ar gyfer pob rhanddeiliad (ac sydd felly wedi'u cynnwys ar y Map Gwerth). Mae'n hanfodol ein bod yn nodi deilliannau penodol er mwyn deall beth sydd wedi newid o ganlyniad i'r gweithgareddau, ond nid yw bob amser yn hawdd nodi'r cysylltiadau damweiniol rhwng amrywiol randdeiliaid a'u deilliannau. Mae Atodiad 2 a 3 yn dangos y cadwyni newid cyffredinol ar gyfer y rhai a gafodd gymorth drwy'r gwasanaeth Cymorth Tai GISDA yn ystod 2021-2022, ac mae'n amlygu'r rhai a gynhwyswyd yn y drafodaeth hon a'r rhai a gafodd eu hepgor o'r dadansoddiad. Ceir trafodaeth am y prif ddeilliannau ac enghreifftiau o bobl ifanc sydd yn rhieni, a phobl ifanc sengl ym Mlaenau Ffestiniog a Chaernarfon.

### 6.2.1 POBL IFANC

#### Deilliant 1 – Gwell iechyd meddwl

Holwyd y bobl ifanc am eu sefyllfa a gofyn beth sydd wedi newid yn eu bywydau, os rhywbeth, ers cychwyn cael cymorth gan GISDA. Mynegodd y bobl ifanc yn gynnar iawn yn y sgyrsiau eu bod wedi cael problemau gyda'u hiechyd meddwl dros y blynyddoedd a dyma le mae'r newid mwyaf wedi digwydd. Yn ystod y cyfnod sydd yn cael ei asesu, roedd 154 wedi datgelu bod ganddynt broblemau iechyd meddwl, sef 66% o bawb a gafodd gefnogaeth yn y cyfnod, ac o'r rhain roedd 33% wedi cael diagnosis. Roedd y rhain yn cynnwys anhwylder pryder, iselder, awtistiaeth, ADHD, anhwylder bwyta, psychosis, schizophrenia, Bipolar, Post Traumatic Stress

Disorder ac eraill.

Mynegodd rhai o'r rhieni ifanc eu bod yn dioddef, neu wedi dioddef o gorbryder, hyder isel neu iselder. Eglurodd un fam ei bod wedi bod drwy gyfnod anodd gydag achos llys ac roedd hi yn dioddef o ran straen a phryder ac roedd cael cymorth y gweithiwr cefnogol yn allweddol bwysig. Iddi hi roedd gwybod bod bosib cael siarad gyda rhywun 24/7 os oedd angen yn hanfodol. Dywedodd rhiant arall ei fod yn teimlo yn isel ar adegau gan nad oedd hi yn teimlo fel rhieni eraill a bod mynychu gweithgareddau rhieni neu fynd am ddiwrnod allan i rywle fel Pili Pala yn rhywbeth nad oedd yn teimlo gallai wneud ei hun, ond drwy gael cymorth gan ei gweithiwr cefnogol mae hi yn llawer mwy hyderus i wneud hyn bellach.

Yn y grwpiau ffocws ym Mlaenau a Chaernarfon roedd llawer yn mynegi faint o newid oedd wedi bod yn eu hiechyd meddwl,

"Instead of being in a dark tunnel there is light"

Roedd cael rhaglen o weithgareddau ar gael, yn enwedig yn dilyn cyfnod y pandemic, yn allweddol bwysig. I lawer roedd cael pwrpas a 'routine' yn helpu i gael strwythur ac yn helpu i gael gwared ac unrhyw ymarferion drwg oedd yn broblem yn y gorffennol. Roedd y gweithgareddau a'r hyfforddiant hefyd yn helpu o ran eu hunan hyder pan roeddent yn cael cyfle i drio a gwneud pethau amrywiol mewn awyrgylch cefnogol.

"Gisda has taught me how to actually live life and what is important in it. It taught me I don't need to be partying and aggressive to enjoy life."

"Words can't describe how much gisda has helped."

"It's life changing"

Roedd un person ifanc yn egluro lle mae wedi cael problemau difrifol yn y gorffennol gyda'i hiechyd meddwl a wedi bod mewn 'lle peryg'. Eglurodd sut roedd y system gefnogol yn bwysig a sut ei fod wedi ar adegau adnabod pan roedd problemau nad oedd yn amlwg iddo ac wedi gwneud iddo sylwi bod angen cymorth.

Yn y grwpiau ffocws roedd yna ddau berson oedd yn newydd iawn i'r cymorth, ond yn egluro eu bod yn barod yn gweld gwahaniaeth a bod y croeso a'r teimlad o fod yn rhan o deulu wedi gwneud iddynt deimlo yn saff a hapus. Er roeddent yn adnabod mae dechrau'r siwrnau oedd hyn, roedd y teimlad positif o fod yno yn help enfawr.

Roedd yna ganran o'r bobl ifanc hefyd yn mynychu gweithgareddau ICAN ac Academi Cyfleon ac eglurodd un bod y cymorth fel triongl gyda'r gwasanaeth gan y gweithiwr allweddol a bod cyfuniad yma yn helpu iddynt gael deilliannau positif.

Fel nodwyd uchod, roedd llawer wedi cael diagnosis o gyflyrau iechyd meddwl ac felly yn cael cefnogaeth gan fudiadau eraill, bod hynny yn feddyg teulu, CAMHS neu dîm Iechyd meddwl Cymunedol. Cafwyd ambell enghraifft lle'r oedd y person ifanc yn gweld bod yna gydweithio da rhwng y mudiadau yma a'u gweithwyr allweddol a bod hynny yn holl bwysig iddynt fynychu cyfarfodydd a deall beth sydd yn digwydd.

Yn yr arolwg, gofynnwyd am faint o newid roeddent wedi gweld yn eu hiechyd meddwl ers dechrau gweithio gyda GISDA, roedd 100% o'r rhieni ifanc oedd wedi ateb yn dweud eu bod wedi profi newid yma gyda chanran y newid o 53%. Roedd y canlyniadau o ran pobl ifanc sengl yma ym Mlaenau a Chaernarfon yn debyg iawn gyda 83% wedi profi newid ym Mlaenau a 54% yng Nghaernarfon a 85% o newid ym Mlaenau a 79% yng Nghaernarfon.

### Deilliant 2 – Teimlo yn fwy annibynnol

Un o brif amcanion y prosiect yw cefnogi a pharatoi pobl ifanc ddigartref i fyw yn annibynnol.

Yn ystod y trafodaethau gyda’r bobl ifanc roedd hyn yn ddeilliant oedd yn bwysig iawn iddynt. Roeddent wedi derbyn llawer o gymorth un ai yn unigol gyda'u gweithwyr allweddol neu drwy weithdai / sesiynau hyfforddiant ar gyfer eu paratoi ar gyfer sgiliau bywyd megis coginio, cynllunio cyllideb a thalu biliau, siopa, glanhau a hylendid a llawer mwy. Fel dywedodd un person ifanc,

“Dydy nhw ddim yn dysgu dim am hyn yn yr ysgol.”

Dywedodd nifer o’r rhieni ifanc bod y gwahaniaeth yn eu hannibyniaeth wedi bod yn allweddol bwysig iddynt. Roedd llawer wedi bod yn byw adra gyda’u rhieni yn flaenorol ac roedd hyn yn creu straen enfawr arnyn nhw a'u perthynas gyda’u teulu gan nad oeddent yn cael y rhyddid i fod yn rhiant ac i wneud penderfyniadau fel rhieni. Roedd cael llety a gofod eu hunain yn allweddol bwysig a chael cymorth staff GISDA er mwyn cymryd y camau cyntaf yma yn help enfawr. Roedd un fam bellach yn gweithio i’r mudiad ac yn y broses a chael tŷ ei hun. Roedd hi wedi derbyn cefnogaeth drwy’r Academi Cyfleon a rŵan mae cael gwneud hyn fel gwaith a rhoi help i eraill yn gwneud iddi deimlo yn bositif iawn.

Roedd rhai yn teimlo yn barod i’r cam nesaf a chael cartref eu hunain ond yn teimlo yn rhwystredig gan nad oedd digon o dai ar gael. Fodd bynnag, pan roeddent yn cael tŷ, roedd gwybod eu bod dal yn medru cysylltu gyda’r staff unrhyw adeg yn allweddol bwysig. Roedd hyn yn cael ei gefnogi gan yr Arweinwyr Tîm oedd yn egluro bod llawer o’r bobl ifanc yn dal i gysylltu yn achlysurol ar ôl gadael y gwasanaeth os oedd rhywbeth yn codi. Er enghraifft, os roedd ryw fil annisgwyl yn cyrraedd neu ryw broblem gyda gwaith yna byddent yn ffonio am gyngor ond bod hyn yn bwysig er mwyn parhau a sicrhau’r annibyniaeth yma.

"Gisda changed my life for the good. They gave me hope, positivity, independence and new life skills. I would have been lost and worse off without gisda."

Yn ystod astudiaeth wnaeth GISDA ar wahân i'r asesiad yma, holwyd y bobl ifanc am ble roeddent yn meddwl byddent os na fyddent wedi derbyn y cymorth yma. Roedd 108 wedi ymateb ac roedd y mwyafrif yn dweud y byddent yn ddigartref ac yn byw ar y stryd, yn 'sofa surfing' gyda ffrindiau neu'n byw adref ac yn anhapus gan nad oedd yna berthynas da gyda rhieni. Dywedodd rhai hefyd y byddent yn debygol o fod yn y carchar.

"Homeless and probably wouldn't have finished college or applied to university either"

"Probably on the street and completely lost"

Roedd canran o'r bobl ifanc oedd wedi derbyn cymorth yn y cyfnod yn mynd i'r coleg neu yn gweithio unai rhan amser neu lawn amser. I rai roeddent yn dweud byddai hyn wedi digwydd beth bynnag, ond roedd eraill yn dweud na fyddai hyn wedi bod yn bosib cyn gan nad oeddent yn ddigon hyderus, ond hefyd sut roedd cael lloches a chyngor ar gael cyfrif banc a gwneud ceisiadau yn bosib.

Yn ystod y cyfnod, roedd gweithwyr GISDA wedi llwyddo i gael £45,310 o grantiau i'r bobl ifanc. Roedd hwn yn gyfuniad o grant Cymorth Llaw GISDA  a grantiau allanol. Cyfeiriodd nifer at eu gwerthfawrogiad o'r grantiau yma yn ystod y grwpiau ffocws, gyda nifer wedi cael help i gael dillad plant, dodrefn i'r tŷ neu offer technoleg i'r coleg.

Yn yr arolwg, roedd 100% o'r rhieni ifanc wedi profi newid yma gyda 75% o newid. Roedd yna wahaniaeth yma rhwng pobl ifanc sengl Blaenau a Caernarfon gan fod pobl ifanc Blaenau yn gweld hwn yn ddeilliant pwysig a gyda llawer fwy o newid yma gyda 75% a 85% o newid. Yng Nghaernarfon roedd 86% wedi profi newid yma a 75% o newid.

## Deilliant 3 – Teimlo yn llai ynysig a chael rhwydwaith o gefnogaeth

Mynegodd y bobl ifanc pa mor bwysig a gwerthfawr oedd bod yn rhan o 'deulu' GISDA a chael cefnogaeth, nid yn unig gan y gweithwyr allweddol, ond gan y rhwydwaith o staff yn GISDA a hefyd help roedd y bobl ifanc yn rhoi i'w gilydd. I lawer ohonynt, roeddent wedi dod o gefndir cymhleth lle roeddent unai wedi bod yn ddigartref, neu wedi bod yn byw adref mewn awyrgylch lle nad oedd cefnogaeth. I rai oedd yn rhan o'r grwpiau ffocws, roedd y teimlad o gefnogaeth a bod yn rhan o rywbeth yn digwydd yn syth, fodd bynnag drwy drafodaeth gyda rhai pobl ifanc a'r staff, roedd yn cymryd peth amser i gael hyder yn y staff a'r broses. Roedd hyn yn ganlyniad i nifer o brofiadau gwael yn y gorffennol o gael eu gadael lawr ac felly roedd derbyn y cymorth ac ymddiried yn y broses yn cymryd amser.

Mae'r gwerthusiad yma yn edrych ar gyfnod Ebrill 2021- Mawrth 2022 ac felly yn dilyn y cyfnodau clo yn ystod y pandemic Covid-19. Gwelwyd effaith y cyfnod yma ar lawer gan nad oedd cymaint o weithgareddau wedi bod yn digwydd ac felly roedd y teimlad o unigrwydd a bod yn ynysig yn ddwys iawn. Fodd bynnag, yn ystod yr un cyfnod roedd yna galendr o weithgareddau wedi ail gychwyn ac roedd y bobl ifanc yn mynegi pa mor bwysig oedd cael hyn. I rai roedd gallu galw mewn i Hafan yng Nghaernarfon neu i'r swyddfa yn GISDA am sgwrs yn bwysig.

"Gisda has helped me be more independent. Helped me with social anxiety and gave me roof over my head. The staff are brilliant and so supportive. I feel at home in GISDA, they are awesome."

"Gisda helped with appointments and helped me start off with my gender consultation as I had bad anxiety. I've been given many opportunities with gisda and my confidence has grown massively."

“Without GISDA I wouldn't have the chance to be myself without the harms of abuse from my family and I feel that without the support I had gotten I would have never gotten out of my home.”

Eglurodd llawer y pwysigrwydd o wybod bod rhywun ar gael i siarad gyda nhw 24/7. I lawer roedd y nosweithiau yn adeg anodd ac unig ac roeddent yn teimlo yn well gwybod bod ganddynt rywun i siarad gyda**.** Yn ogystal a chael cymorth gan y staff, roedd cyfeillgarwch gyda’i gilydd yn bwysig. Roedd llawer yn dod o gefndir tebyg ac wedi wynebu heriau tebyg yn eu bywydau ac felly roedd cael cyfle i gymdeithasu a gwneud ffrindiau newydd yn werthfawr.

Yn yr arolwg, roedd llai o rieni wedi profi newid yn hyn gyda dim ond 40% yn dweud eu bod wedi profi newid yma. Gall hyn fod oherwydd nad oedd hyn yn digwydd bod yn gymaint o gonsyrn yn y cychwyn i rai gan fod yna gefnogaeth gan fudiadau eraill neu ffrindiau, fodd bynnag, wrth ystyried y data meintiol roedd bod yn rhan o rwydwaith a ‘theulu’ GISDA yn bwysig. Hefyd, wrth edrych ar ddata oedd gan GISDA roedd yna newid mawr yma o’r waelodlin i’r adolygiad cyntaf gyda’r canlyniad cyntaf ar gyfartaledd oedd 2 ac yn yr ail adolygiad y canlyniad oedd 5.6, newid o 36%.

O ran y bobl ifanc sengl, roedd mwy wedi profi newid yn y deilliant yma ym Mlaenau gyda 75% yn adrodd newid a 57% yng Nghaernarfon.

### Deilliant 4 – Iechyd corfforol

Ar gyfer y rhieni ifanc, nid oedd hwn yn ddeilliant mor amlwg o’r data ansoddol na meintiol. 18% yn unig oedd y canran o newid ar gyfer y rhieni ifanc felly nid oedd yn ddeilliant materol ac nid yw wedi ei gynnwys yn y map gwerth. Fodd bynnag, mae gwerth nodi yn y data sydd

gan GISDA maent yn ei gasglu yn unigol, roedd yna 46% o newid yma ar gyfartaledd i'r deilliant iechyd a llesiant a gall hwn gynnwys lle meddyliol a corfforol.

Yn ystod un o'r grwpiau ffocws, nododd un ei bod wedi dioddef o anhwylder bwyta yn y gorffennol. Ers iddi ddod i GISDA roedd ei pherthynas gyda bwyd wedi gwella ac roedd wedi rhoi pwysau ymlaen dros y cyfnod ac yn teimlo yn llawer gwell. Mynegodd eraill hefyd bod cael y cymorth a phatrwm i'r wythnos wedi gwella ei llesiant corfforol ac roedd ganddynt ymateb mwy positif i fywyd.

"Gisda has taught me how to actually live life and what is important in it. It taught me I don't need to be partying and aggressive to enjoy life."

O ran pobl ifanc sengl, roedd canlyniad yr arolwg yn debyg yma ym Mlaenau a Chaernarfon gyda 64% wedi profi newid yn Blaenau a 66% yng Nghaernarfon.

## Effeithiau negyddol posibl

Fel y gwelir yn y Gadwyn Newid yn Atodiad 2 a 3, ni fydd newid, neu bydd deilliannau negyddol posibl, i bobl ifanc nad ydynt yn dilyn y llwybr tuag at newid llwyddiannus. Mae'n bwysig ystyried y deilliannau negyddol posibl er mwyn galluogi GISDA i'w rheoli yn y dyfodol.

Gofynnwyd i bawb yn ystod y grwpiau ffocws ac yn yr arolwg os oedd yna unrhyw beth all fod yn well am y gwasanaeth neu rywbeth oedd wedi achosi newid negyddol iddynt. Gwelwyd data hefyd drwy weithdai eraill roedd GISDA wedi eu cynnal yn gofyn cwestiynau tebyg. Mae rhai o'r pwyntiau isod yn bethau cafodd eu nodi yn y data.

### Dim newid – teimlo yn waeth?

Roedd y data Survey Monkey yn dangos bod canran o unigolion heb brofi newid mewn rhai

deilliannau. Yn ogystal, cafwyd sampl o ddata gan GISDA o ganlyniadau'r seren ddeilliannau sydd yng Nghynllun Cefnogaeth pob unigolyn. Yma roedd y canlyniad o'r cyfarfod yna, yr ail gyfarfod i bawb ond dim ond sampl bach oedd gyda 3ydd asesiad. Roedd ambell ganlyniad yn y trydydd asesiad yn dangos dirywiad.

Mae'n werth nodi, roedd y rhai nad oedd wedi profi newid yn yr holiaduron yn unigolion nad oedd wedi mynychu unrhyw weithgareddau ychwanegol megis Caffi Creu, Academi Cyfleon neu ICAN ond yn mynychu sesiynau gyda'u gweithwyr allweddol yn unig.

I'r rhai nad sydd wedi profi newid ac er mwyn osgoi gor-hawlio, mae'n werth ystyried os byddai'r bobl ifanc yn teimlo yn waeth gan nad oes newid wedi digwydd. Felly, mae yna ganran o unigolion wedi ei gynnwys yn y map gwerth gyda deilliannau negyddol o iechyd meddwl wedi dirywio.

### Mwy o weithgareddau

Un o'r pwyntiau nodwyd gan rhoi oedd mwy o weithgareddau a chymysgedd o weithgareddau yn enwedig ym Mlaenau a Dolgellau. Roedd rhai yn teimlo bod y rhaglen o beth sydd ar gael yng Nghaernarfon yn llawer mwy eang ac yn teimlo o dan anfantais nad oedd yr un cyfleon iddynt,

"I feel like we need more of a range of activities here in Blaenau Ffestiniog. It's always disheartening to see the monthly itinerary for Caernarfon compared to Blaenau, plus travelling all the way to caernarfon makes me very very tired, so I'd prefer it if more activities and all were done in the Blaenau office."

Fodd bynnag, mae'n werth nodi bod newidiadau yn eu lle ym Mlaenau yn ystod y cyfnod asesiad a bod y rhaglen o weithgareddau yn cynnig pethau bron yn ddyddiol. Gweler yn

atodiad 6 esiampl o raglen o weithgareddau sydd wedi datblygu yn y cyfamser.

Nododd nifer o rieni hefyd y byddent yn hoffi gweld sesiynau ar gyfer rhieni yn benodol. Roedd nifer yn mynychu gweithgareddau eraill gyda'r plant ac yn canmol y gefnogaeth oedd ar gael gan y gweithwyr allweddol gyda'r plant er mwyn iddynt fanteisio o'r gweithgareddau. Fodd bynnag, roedd cael sesiynau penodol ar gyfer rhieni ifanc yn rhywbeth roeddent eisiau rhagor ohono gan nad oeddent yn teimlo yn gartrefol mewn sesiynau eraill oedd ar gael yn y gymuned. Eto, mae gwerth nodi bod yna sesiynau wedi cael yng Nghaernarfon yn y cyfnod yma.

### Cymorth LGBTQ+

Mae GISDA ers peth amser wedi sefydlu rhaglen o gymorth a chlwb LGBTQ+ yng Nghaernarfon ac ym Mlaenau Ffestiniog ac roedd hwn yn rhywbeth roedd llawer yn nodi oedd yn bositif ac wedi bod yn help enfawr i'w hiechyd meddwl, hyder ac i'r teimlad o berthyn. Fodd bynnag, roedd rhai o'r bobl ifanc yn nodi bod dal rhagor y gellid datblygu yma dros amser ac roedd mwy o hyfforddiant i staff er mwyn deall y broses o drawsnewid yn un o'r argymhellion gan y bobl ifanc.

Datblygu'r cymorth yma yw un o'r blaenoriaethau yn Strategaeth Cyngor Gwynedd hefyd,

"Dangosodd yr Asesiad Anghenion hefyd bod angen datblygu darpariaeth LGBTQ+ arbenigol. Mae angen adolygu darpariaeth bresennol Tai â Chymorth ar gyfer darpariaeth LGBTQ+. O ganlyniad, mae hyn yn gwaethygu ac yn effeithio ar iechyd meddwl defnyddwyr y gwasanaeth."

### Dibyniaeth ar y gwasanaeth

Nid oedd yna unrhyw un wedi sôn yn benodol am ddibyniaeth, ond roedd ambell un yn cyfeirio at eu gweithwyr allweddol a pha mor bwysig roeddent yn eu bywydau,

"Mae X yn grêt, byswn i ar goll hebddi."

Mae'n bwysig ystyried os yw hyn yn ddibyniaeth neu a ydynt eisiau nodi pa mor bositif yw'r gwasanaeth i'r ymchwilydd. Wrth drafod gyda'r bobl ifanc a'r staff fodd bynnag, roedd y ffordd o weithio wedi newid dros y blynyddoedd ac er bod yna weithiwr allweddol penodol i bawb, roedd yr unigolion yn cael cyswllt gyda nifer aelodau o staff a'r Arweinwyr Tîm ac roedd hyn yn allweddol er mwyn creu gwytnwch.

## Canlyniadau yn ôl grwpiau rhanddeiliaid

Nid yw'n cleientiaid i gyd yr un fath, a bydd ganddynt wahanol anghenion a byddant yn gweld canlyniadau gwahanol. Felly, rhoddir ystyriaeth i wahanol grwpiau rhanddeiliaid er mwyn deall a oes gwahaniaethau yn y canlyniadau a allai ddangos bod angen rheoli'r gwasanaeth yn wahanol i grwpiau o wahanol randdeiliaid. Mae'r tablau yn atodiad 4 yn rhoi crynodeb o'r canlyniadau ar sail data'r sampl, gyda gwaelodlin a chanlyniadau'r pellter a deithiwyd ar gyfer y bobl ifanc a gymerodd rhan. Dyma rhai o'r prif negeseuon o'r data a sut y cawsant eu segmentu yn y map gwerth.

- Nifer o rieni ifanc oedd wedi profi newid yn uchel.
- Er bod iechyd corfforol yn bwysig i rieni ifanc, ychydig oedd wedi newid yma ac felly nid oedd yn faterol.
- Roedd trefn pwysigrwydd y deilliannau yn wahanol ym Mlaenau ac yn Nghaernarfon. Er bod y sgorau yn eithaf tebyg, roedd annibyniaeth ychydig yn fwy pwysig ym Mlaenau ac roedd hyn yn cyd fynd gyda'r sgyrsiau, lle iechyd meddwl oedd bwysicaf yng Nghaernarfon.
- Roedd yna wahaniaeth yn y canlyniadau ar sail gendr e.e. roedd pwysigrwydd cymharol

y deilliannau yn wahanol ac roedd y merched wedi profi ychydig mwy o newid yn y deilliannau. Fodd bynnag, roedd sampl llai o fechgyn wedi cymryd rhan yn yr astudiaeth felly ni segmentwyd ar sail gendr tro yma.

- Roedd canran y newid yn debyg i bobl ifanc oedd yn cael eu hadnabod fel LGBTQ+ a rha nad oedd yna, ond yn ddiddorol roedd sgôr y cyfarfod cyntaf gydag aelodau oedd yn LGBTQ+ yn is wrth gychwyn y gwasanaeth.
- Penderfynwyd cyflwyno'r data yn y map gwerth fel yma: Pobl ifanc sydd yn rieni, pobl ifanc sengl Blaenau Ffestiniog, Pobl Ifanc sengl Caernarfon. Gyda mwy o ddata gellir edrych os oes mwy o segmentau sydd angen eu rheoli.

### 6.2.2 STAFF

Cafwyd trafodaethau gyda staff a hefyd holiadur er mwyn deall ymhellach y deilliannau i'r bobl ifanc, ond hefyd deall beth ydy'r effaith arnynt fel aelodau staff. Bu mewnbwn gan gynrychiolaeth o'r tîm rheoli, arweinwyr tîm, gweithwyr allweddol a gweithwyr gweinyddol a hynny ym Mlaenau a Chaernarfon.

Y prif resymau am eisiau gweithio gyda GISDA oedd eu bod eisiau helpu eraill a hefyd eisiau datblygu gyrfa yn y maes ac roedd y deilliannau materol i gyd yn berthnasol i'r datblygiad personol. Sampl bach atebodd yr holiadur ond dyma'r canlyniadau.

100% yn dweud eu bod yn cael boddhad personol o helpu eraill

100% Gwell deimlad o bwrpas personol

100% teimlo mwy hyderus i weithio yn y maes

100% wedi datblygu sgiliau

100% wedi gwell sgiliau cyfathrebu

Y prif bethau all fod yn well am GISDA o safbwynt y staff oedd:

1. Cyflog – llawer yn teimlo fod y cyflog yn rhy isel am y gwaith, a bod hyn yn achosi problem o ran cadw staff. Roedd rhai ar lefel rheoli a gweithwyr allweddol yn nodi bod yna system gefnogaeth a hyfforddiant da, ond yna nad oedd bobl yn aros gan fod y cyflog yn isel.
2. Cwnsela – nododd rhai bod y gwaith yn medru achosi straen a phryder ar adegau. Roedd rhai achosion dwys ac weithiau digwyddiadau dychrynllyd yn digwydd ym mywydau'r bobl ifanc oedd hefyd yn cael effaith ar y staff. Nodwyd byddai cael cwnselydd yn gweithio i GISDA yn ddefnyddiol nid yn unig i'r bobl ifanc ond hefyd i'r staff. Er bod mynediad at fyfyriwr wedi bod ar adegau, byddai cael cwnselydd llawn amser o fodd dywedwyd.

### 6.2.2 MUDIADAU ERAILL

#### Llai o alw am wasanaethau

Mae’r holl ddeilliannau i’r GIG, Gwasanaethau Cymdeithasol, Heddlu a mudiadau eraill statudol yn perthyn i’r potensial i ailddosbarthu costau yn gysylltiedig ag osgoi’r galw am wasanaethau. Prif amcan y prosiect yw cefnogi pobl ifanc ddigartref neu ar risg o fod yn ddigartref i roi lloches a'u paratoi ar gyfer byw yn annibynnol. Mae ymchwil yn dangos bod y gost o waith ataliol yn y maes yma yn costio llai na fyddai costau eraill sydd yn gysylltiedig â digartrefedd. Fel nodwyd eisoes mae canran sylweddol o’r bobl ifanc yn dweud heb y cymorth byddent yn debygol o fod yn ddigartref, mewn llety dros dro neu mewn llety anaddas mewn sefyllfa ddyrys. Bydd y deilliannau perthnasol i’r unigolion felly yn cael effaith ar wasanaethau, a defnyddiwyd tystiolaeth o’r dadansoddiad hwn ac o astudiaethau eraill blaenorol i gael amcangyfrifon ceidwadol. Ceir mwy o wybodaeth am y costau yn gysylltiedig â hyn yn y bennod nesaf.

Cafwyd cyswllt gyda Chyngor Gwynedd o ochr y tîm Cefnogaeth Tai a hefyd ymgysylltu gyda CAMHS. O safbwynt y Cyngor roeddent yn teimlo fod yna gydweithio a chyswllt da gyda GISDA. Yn anffodus ni lwyddwyd i gael sgwrs gyda mudiadau eraill.

O ran pethau mwy negyddol yma, cafwyd trafodaeth gyda CAMHS a’r adborth yma oedd byddent eisiau gweld mwy o gydweithio yn y dyfodol. Er bod cyfarfodydd wedi bod, nid oedd yna ddilyniant o’r sgyrsiau yma. Roedd yna bryder ar adegau nad oedd yn gyfeiriadau yn cael eu gwneud pan yn addas i wneud hynny. Mwy am hyn yn yr argymhellion.

**Astudiaeth Achos**

Daeth y person yma i fyw yn yr hostel a chael cymorth dwys, cyn mynd i'r fflatiau 'symud ymlaen' ac yn parhau i gael cymorth rŵan wedi symud i'w chartref ei hun o fewn y gymuned.

Eglurodd yr ofn a'r unigrwydd wrth gychwyn gweithio gyda GISDA ar ôl dod yn ddigartref wedi toriad perthynas gyda rhiant. Roedd wedi bod drwy gyfnodau o iselder ac roedd hyn yn cael effaith ar ei ymagwedd at fywyd ac roedd hi'n teimlo yn flin iawn ac yn dreisgar ar adegau.

Wrth ddechrau cydweithio gyda'r gweithiwr allweddol, datblygodd hyder i agor fyny a rhannu ac roedd trafod a nodi lawr pwyntiau am sut roedd yn teimlo yn helpu. Magodd hyder i ddechrau mynychu gym lleol a dosbarthiadau ffitrwydd.

Dechreuodd fynychu'r sesiynau ICAN a chafwyd cymorth ariannol i dalu am ddosbarthiadau ffitrwydd am 2 fis. Cafodd gymorth gan GISDA a gweithiwr allweddol hefyd i fynd i siopa a chael dillad ffitrwydd addas.

Drwy'r cymorth un i un gan y gweithiwr allweddol a'r sesiynau ICAN mae hi rŵan yn mynychu'r gym ei hun ac wedi magu hyder i wneud pethau ar ei phen ei hun. Mae ei hiechyd meddwl wedi gwella ac mae hi'n fwy ymwybodol o'i theimladau ac emosiynau.

Mae hi yn teimlo yn fwy positif ar gyfer y dyfodol ac yn cael cymorth i ddysgu dreifio a mynychu hyfforddiant.

# 7.0 Amcangyfrif Gwerth Deilliannau

Y gwahaniaeth rhwng defnyddio SROI a fframweithiau eraill yw ei fod yn medru rhoi gwerth ariannol ar ddeilliannau. Trwy roi gwerth ariannol arnynt, mae'n caniatáu i ni nid yn unig adrodd stori'r hyn sydd wedi newid ym mywydau pobl, ond hefyd ein galluogi i roi gwerth i'r newidiadau hynny er mwyn cymharu costau a deilliannau. Nid rhoi pris ar bopeth mo hyn, ond modd o'n galluogi i ddangos yr effaith y mae'r gwasanaeth yn ei gael ar randdeiliaid eraill, a'r arbedion posibl y gall ymyraethau eu creu. Mae hefyd yn mynd y tu hwnt i fesur yn unig, gan ganiatáu i fudiadau reoli eu gweithgareddau i sicrhau eu bod yn creu'r effaith orau bosibl i'r bobl bwysicaf un: y pobl ifanc.

### 7.1 EFFEITHIAU GWASANAETH CEFNOGAETH TAI GISDA

Mae dadansoddiadau SROI yn defnyddio egwyddorion cyfrifo safonol i gyfrifo effaith gyffredinol gweithgareddau. Mae rhoi ystyriaeth i unrhyw ffactorau gwrthffeithiol, priodoliad, dadleoliad a gostyngiad yn golygu y bydd dadansoddiadau SROI yn osgoi gor-hawlio gwerth nad yw'n ganlyniad o'r gweithgareddau. Mae'r blychau isod yn amlinellu pob un o'r ffactorau effaith.

### Gwrthffeithiol

Mae hyn yn gofyn pa mor debygol yw hi y gallai deilliant fod wedi digwydd heb i weithgaredd ddigwydd. Felly, er enghraifft, os credir bod siawns o 10% y gallai rhywun fod wedi dod o hyd i waith heb raglen hyfforddi, mae gostyngiad o 10% yng ngwerth y deilliant hwnnw.

### Priodoliad

Yn ystyried pa gyfran o ddeilliant a grëir gan sefydliadau/unigolion eraill, ac felly nad yw'n deg i'r dadansoddiad SROI ei hawlio. Er enghraifft, os yw asiantaeth allanol hefyd yn cefnogi rhywun sy'n derbyn hyfforddiant, mae'r sefydliad hwnnw, yn ogystal â'r sefydliad hyfforddi, yn gyfrifol am greu rhywfaint o'r gwerth.

### Dadleoliad

Mae hyn yn gofyn a yw deilliant wedi dadleoli deilliannau tebyg yn rhywle arall. Nid yw hyn bob amser yn fesur effaith angenrheidiol, ond mae'n rhaid ei ystyried. Er enghraifft, os yw prosiect yn lleihau gweithgaredd troseddol mewn un ardal, ond yn arwain at gynnydd mewn lleoliadau eraill, mae angen ystyried y deilliannau a ddadleolwyd.

### Gostyngiad

Rhaid i ddeilliannau a ragfynegir ar gyfer mwy nag un flwyddyn ystyried cyfradd y gostyngiad. Ar y gyfradd hon mae'r gwerth y gellir ei briodoli i ffocws y dadansoddiad SROI yn lleihau dros gyfnod. Er enghraifft, gall unigolyn sy'n cael hyfforddiant ar gyfer gwaith, yn ystod y flwyddyn gyntaf o'i gyflogaeth, briodoli'r holl werth i'r sefydliad â'i hyfforddodd. Ond, wrth symud ymlaen yn eu gyrfa, mae llai o'r gwerth yn perthyn i'r fenter gyntaf, a mwy i'w profiadau newydd.

## 7.2 Rhanddeiliad 1 – pobl ifanc (rhieni a sengl)

Daeth gwerthoedd y deilliannau ar gyfer yr unigolion o Gyfrifydd Gwerth Cymdeithasol HACT (Fersiwn 4),[16] sy'n nodi amrywiaeth o werthoedd llesiant. Fodd bynnag, roedd data'r asesiad cychwynnol a'r ail adolygiad yn darparu'r pellter a deithiwyd o ran y newid i'r unigolyn, ac felly defnyddiwyd cyfran o'r gwerthoedd llesiant.Yn ogystal defnyddiwyd yr wybodaeth ar werth a phwysigrwydd cymharol y deilliannau o'r wybodaeth o'r data ansoddol a meintiol.
Er mwyn cadw at egwyddor gyntaf SROI sef Cynnwys Rhanddeiliaid, yn ystod y grwpiau ffocws cafwyd cynnig ar chwarae'r gêm gwerth. Bwriad y gêm yma yw cymharu'r deilliannau maen nhw eisoes wedi ei adnabod sydd yn bwysig a'u cymharu gyda phethau materol gallem ei brynu. Wedi rhoi'r deilliannau mewn trefn o bwysigrwydd, rhoddwyd yr eitemau materol mewn trefn. Yr eitem bwysicaf i'r ddau grŵp oedd wythnos o wyliau, holl gynhwysol yn rhywle fel Tenerife neu Ibiza. Roedd un grŵp yn dweud bod y deilliannau yn llawer mwy gwerthfawr na'r gwyliau yma, gyda'r ail grŵp yn nodi fod y gwyliau mor bwysig â'r deilliant roeddent wedi ei roi ar y top. Fodd bynnag, penderfynwyd peidio defnyddio'r canlyniadau yma gan fod anghytuno ar y drefn, yn hytrach defnyddiwyd y 'weighting' a gafwyd o'r data er mwyn cadw at yr egwyddor cymaint â phosib.

Ar gyfer y rhieni ifanc a phobl ifanc sengl, cafwyd y gwerth ar gyfer 'Gwell Iechyd meddwl' o'r gwerth llesiant 'Lleihau iselder a phryder( oedolyn)' sydd yn rhoi gwerth £36,766 fesul unigolyn. Mae yna werth ar gyfer pobl ifanc sydd yn llai ond mae hyn hyd at 16 oed felly mae'n addas defnyddio'r un oedolyn.  I'r rhieni, roedd y teimlad o fedru gwneud penderfyniadau eu hunain iddyn nhw a'r plant yn allweddol bwysig ac roedd eu hiechyd meddwl yn allweddol

[16] Gwerthoedd llesiant HACT. Ar gael o http://www.hact.org.uk/value-calculator

bwysig iddynt. Roedd iechyd meddwl yn rhywbeth oedd yn poeni canran uchel o'r bobl ifanc gyda 66% gydag anghenion penodol iechyd meddwl.

Dylid nodi hefyd, oherwydd y gwerth uchel a roddir i Well iechyd meddwl, er mwyn cadw at yr egwyddor o beidio â gor-hawlio, defnyddiwyd canran y newid yn unig. Er enghraifft, roedd canran y newid gan rieni ifanc yn eu hiechyd meddwl yn 63% yn yr holiadur, ac felly cymerwyd 63% o'r ffigwr £36,766 a rhoi £23,162. Defnyddiwyd yna'r'weighting; ar gyfer yr holl ddeilliannau eraill.

## 7.3 RHANDDEILIAD 2 – (CYRFF CYHOEDDUS) Y GOST O DDIGARTREFEDD

Mae llawer o waith ymchwil dros y blynyddoedd wedi edrych ar y wir gost o ddigartrefedd ac edrych ar beth yw'r costau i drethdalwyr a sut mae costau o waith ataliol yn cymharu gyda hyn. Byddai cael gafael ar wir gostau yn gymhleth gan ei fod yn dibynnu ar nifer o nodweddion amrywiol er enghraifft lleoliad a ffactorau megis dibyniaeth ar alcohol neu gyffuriau neu broblemau iechyd meddwl. Fodd bynnag, mae'n werth edrych ar waith ymchwil blaenorol a chostau sydd ar gael a sut mae'r rhain yn cymharu gyda'r data ansoddol a meintiol gasglwyd gan GISDA.

Yn adroddiad 'Evidence Review of the Costs of Homelessness'[17] a gyhoeddwyd yn 2012 gan Adran Cymunedau ac Llywodraeth Lleol yn Llundain, nodwyd bod angen ystyried y ffactorau risg sydd yn achosi digartrefedd,

"Risk factors include drug or alcohol problems, poor educational attainment / qualifications and ongoing mental health issues. Triggers can include bereavement, job loss, crime, leaving

[17] Evidence review of the costs of homelessness (publishing.service.gov.uk) 02/06/2022

an institution (including the armed services), and a sudden deterioration in mental health. Relationship or family breakdown can be both a risk factor and a trigger."

Yn yr adroddiad yma roedd asesiad o nifer o waith ymchwil gwahanol yn dweud bod cost ddigartrefedd fesul person rhwng £24,000 – £30,000. Mae hyn yn ystyried costau i Adran Gwaith a Phensiynau, Iechyd, System Trosedd a Chyfiawnder, Adran Addysg ac Awdurdodau lleol. Adroddwyd mewn un adroddiad gan yr Adran Iechyd yn dweud bod pobl ddigartref yn 3.2 mwy tebygol o fod yn glaf mewnol mewn ysbyty gyda'r gost yn 1.5 yn uwch ar gyfartaledd.

Mae Crisis UK yn amcangyfrif y gost o ddigartrefedd i fod yn £20,128[18] fesul person yn Lloegr. Roedd yr ymchwil yn cyfeirio at gostau uwch yn yr Alban. Mae'r costau yma yn cynnwys:

"Evidence shows that people who experience homelessness for three months or longer cost on average £4,298 per person to NHS services, £2,099 per person for mental health services and £11,991 per person in contact with the criminal justice system"

Trwy waith ataliol nodwyd bod yna arbedion i'r cyhoedd o £9,266 fesul person ac os byddai 40,000 o bobl yn cael ei atal rhag digartrefedd gydag arbedion o £370 miliwn.

Yn 2021 cyhoeddwyd y Big Issue erthygl yn edrych ar wir gostau digartrefedd,

"It's not cheap to keep people on the streets. That's why The Big Issue's Stop Mass Homelessness campaign is focused on preventing people from becoming homeless in the first place to saves lives and the cost to the taxpayer."[19]

[18] Pleace, N. & Culhane, D.P. (2016) *Better than Cure? Testing the case for Enhancing Prevention of Single Homelessness in England*. London: Crisis.
[19] Explained: The real cost of homelessness - The Big Issue

Yn yr erthygl nodwyd bod Llywodraeth San Steffan wedi gwario £750 miliwn yn y flwyddyn i ddelio gyda digartrefedd a chysgwyr ar y stryd a bod yr Alban wedi neilltuo £12 miliwn i'r un achos a Llywodraeth Cymru £5 miliwn. Nid yn unig bod atal digartref yn beth moesol i wneud, ond nodwyd hefyd ei fod yn gwneud synnwyr ariannol. Trafodwyd yma sut mae

digartrefedd yn cael effaith ar wasanaethau eraill. Er enghraifft nid yw bobl ddigartref gyda mynediad at feddyg teulu yn arferol ac felly yn fwy tebygol o ddefnyddio adrannau brys o fewn ysbytai ac mae eu hiechyd yn debygol o ddirywio. Nodwyd hefyd y gost economaidd gan nad ydy bobl ddigartref yn gweithio a chyfrannu trethi. Fel gwelwyd, roedd 17% o bobl ifanc oedd yn cael cymorth gan GISDA yn gweithio a 25% mewn addysg, rhywbeth na fysai yn bosib o syn cysgu ar y stryd.

Yn yr un adroddiad, adnabuwyd hefyd y costau uchel o roi pobl mewn llety dros dro. Roedd Shelter yn cyhoeddi rhwng Ebrill 2018-Mawrth 2019 roedd £1.1 biliwn wedi ei wario ar lety dros dro ac mae hyn yn dangos yr angen am fwy o lety cymdeithasol.

Mae'r Basdata Costau Unedau[20] yn gael ei gyhoeddi gan Greater Manchester Combined Authority sydd yn defnyddio methodoleg Dadansoddiad Cost a Budd. Gellir defnyddio'r gwaith yma i helpu wneud achosion busnes ac i edrych ar werth am arian. Yn y fersiwn diweddaraf yn 2019 gwelir y costau ynghlwm a digartrefedd yn yn nhabl 5 isod:

**Tabl 5**

| | |
|---|---|
| Homlessness application, one off | £2,909 fesul cais |
| Llety dros dro | £125 yr wythnos |
| Cyngor a chymorth digartrefedd | £747 per scheme |

[20] Research: Cost Benefit Analysis - Greater Manchester Combined Authority (greatermanchester-ca.gov.uk)

| | |
|---|---|
| Cysgu ar y stryd – cost flynyddol i awdurdod lleol | £9,189 fesul person |
| Adults living with severe and multiple disadvantages (SMD) - involvement in homelessness, substance misuse and criminal justice - average annual fiscal cost | £24,541 |

Wrth ystyried yr holl wybodaeth uchod, mae'n rhesymol i roi rhywbeth yn y map gwerth o ran arbedion i'r wlad. Llety dros dro ydy'r cymorth mae'r bobl ifanc yn ei gael ac mae costau i'r wlad yma gan gael ei dalu drwy fudd-daliadau tai sydd yn cael ei ddyrannu fesul unigolyn a GISDA yn rheoli'r costau yma ar eu rhan. Yn dilyn y sgyrsiau cafwyd gyda'r bobl ifanc, staff a'r data meintiol, cyfeiriodd nifer at broblemau yn y gorffennol gydag ymddygiad a pob un gyda phroblemau iechyd meddwl.

Cafwyd amryw ffigyrau rhwng £20,000 – £30,000 yn flynyddol, felly penderfynwyd defnyddio'r ffigwr isaf o £20,128 a hynny am ganran o'r bobl ifanc. Er mwyn peidio gor-hawlio, ni chafodd y ffigwr yma ei gynnwys ar gyfer y 151 a gafodd gymorth Tai. Penderfynwyd defnyddio'r ffigwr o 41% gan fod y canran yma o bobl ifanc wedi dweud y byddent yn ddigartref neu yn 'sofa surfing' wrth ymateb i'r cwestiwn o le byddent rŵan os nad byddent yn gweithio gyda GISDA.

Yn dilyn y sgyrsiau hefyd gyda phobl ifanc, staff GISDA a rhanddeiliaid eraill, mae gwerth trafod hefyd arbedion eraill i'r Bwrdd Iechyd. Roedd yna amryw o ddigwyddiadau lle'r oedd y bobl ifanc angen sylw meddygol, yn aml yn ystod y nos. Roedd y staff yn aml wedi gorfod gyrru'r bobl ifanc i'r ysbyty yn hytrach nag aros am ambiwlans, ac adegau hefyd lle'r oedd y staff wedi cadw cwmni iddynt drwy'r nos yn hytrach na mynd i'r adran brys o fewn yr ysbyty.

Er mwyn rhoi gwerth ar y lleihad posibl mewn galw am wasanaethau'r GIG, defnyddiwyd

dogfen y PSSRU: *Unit Costs Health and Social Care 2017.*[21]

[21] Curtis, L.& Burns, A. (2017) Adroddiad: *Unit Costs of Health and Social Care 2017*. PSSRU.

**Tabl 6 – Enghreifftiau o Werthoedd Deilliannau**

| **Deilliant** | **Y gwerth a bennwyd –** mynegir yr holl werthoedd ariannol fesul person fesul blwyddyn | **Gwerth y pellter cyfartalog a deithiwyd** | **Nifer y rhanddeiliaid a gafodd y deilliant** |
|---|---|---|---|
| Pobl ifanc sydd yn rieni: Gwell iechyd meddwl | Defnyddiwyd Gwerth Lles HACT , Lleihau iselder / pryder (oedolyn); rhoddir gwerth o £36,766 ar gyfer ardal anhysbys. Cymerwyd 63% o'r gwerth hwn ar sail y pellter a deithiwyd, felly £23,162. | O gymryd y pwynt isaf ar raddfa ein holiadur – gofyn i unigolion sgorio yn erbyn mesurau (dim newid = 0%, ychydig newid = 25%, ambell newid = 50%, Eithaf llawer o newid = 75%, Llawer o newid = 100%). Y symudiad cyfartalog oedd 63%. Er mai ar faint sampl bach y seiliwyd hyn, roedd y canlyniadau'n cyd-fynd â thôn y sylwadau a wnaed yn y cyfweliadau – nodwyd hwn fel newid hynod arwyddocaol. | Yn y data o'r ail adolygiad, roedd 100% wedi cael profiad o newid yma, fodd bynnag gan ein bod yn defnyddio sanpl er mwyn peidio gor-hawlio defnyddwyd 80% felly 23 o rieni. |
| Pobl ifanc sengl Blaenau Ffestiniog: Gwell annibyniaeth | Defnyddiwyd Gwerth Lles HACT , Lleihau iselder / pryder (oedolyn); rhoddir gwerth o £36,766 ar gyfer ardal anhysbys. Cymerwyd 53% o'r gwerth hwn ar sail y pellter a deithiwyd, felly £19.485. Yna defnyddwyd y pwysigrwydd cymharol a'r 'weighting' i gael £30,670. Roedd hwn wedi sgorio 85, yn dipyn uwch na iechyd meddwl ar 54. | O gymryd y pwynt isaf ar raddfa ein holiadur – gofyn i unigolion sgorio yn erbyn mesurau (dim newid = 0%, ychydig newid = 25%, ambell newid = 50%, Eithaf llawer o newid = 75%, Llawer o newid = 100%). Y symudiad cyfartalog oedd 53%. Er mai ar faint sampl bach y seiliwyd hyn, roedd y canlyniadau'n cyd-fynd â thôn y sylwadau a wnaed yn y cyfweliadau – nodwyd hwn fel newid hynod arwyddocaol. | Yn y data o'r ail adolygiad, roedd 75% wedi cael profiad o newid yma, 29 o bobl ifanc |
| Pobl ifanc sengl Caernarfon: Teimlo yn llai unig a gwell rhwydwaith o gefnogaeth | Defnyddiwyd Gwerth Lles HACT , Lleihau iselder / pryder (oedolyn); rhoddir gwerth o £36,766 ar gyfer ardal anhysbys. Cymerwyd 63% o'r gwerth hwn ar sail y pellter a deithiwyd, felly £23,162. Yna defnyddwyd y pwysigrwydd cymharol a'r 'weighting' i gael £22,868. Roedd hwn wedi sgorio 78, fymryd yn is iechyd meddwl ar 79. | O gymryd y pwynt isaf ar raddfa ein holiadur – gofyn i unigolion sgorio yn erbyn mesurau (dim newid = 0%, ychydig newid = 25%, ambell newid = 50%, Eithaf llawer o newid = 75%, Llawer o newid = 100%). Y symudiad cyfartalog oedd 63%. Er mai ar faint sampl bach y seiliwyd hyn, roedd y canlyniadau'n cyd-fynd â thôn y sylwadau a wnaed yn y cyfweliadau – nodwyd hwn fel newid hynod arwyddocaol. | Yn y data o'r ail adolygiad, roedd 57% wedi cael profiad o newid yma, 33 o bobl ifanc |

# 8.0 Cadarnhau Effaith

Er mwyn asesu gwerth cyffredinol deilliannau Prosiect Cefnogi Tai GISDA, mae angen inni ganfod faint o'r effaith sydd yn ganlyniad penodol i'r prosiect. Mae SROI yn defnyddio egwyddorion cyfrifo safonol i ddisgowntio'r gwerth, gan ofyn:

- Beth fyddai wedi digwydd beth bynnag (gwrthffeithiol)?
- Pa gyfraniad a wnaed gan eraill (priodoliad)?
- A yw'r gweithgareddau wedi dadleoli gwerth o rywle arall (dadleoliad)?
- Os rhagolygir bod deilliant am barhau mwy nag 1 flwyddyn, ar ba gyfradd fydd y gwerth a grëwyd gan brosiect yn lleihau yn y blynyddoedd i ddod (gostyngiad)?

Mae defnyddio'r pedwar mesur hyn yn creu dealltwriaeth o gyfanswm gwerth net y deilliannau ac yn helpu i gadw at yr egwyddor o beidio â gor-hawlio.

## 8.1 GWRTHFFEITHIOL

Mae gwrthffeithiol yn ein galluogi i ystyried beth fyddai'n digwydd pe na fyddai'r gwasanaeth ar gael. Mae posibiliad o hyd y byddai'r unigolion wedi profi'r un deilliannau trwy weithgaredd arall neu drwy gael cefnogaeth o rywle arall.

Mae'r gwasanaeth yn cael ei ariannu drwy becyn Cymorth Tai neu raglen Cefnogi Pobl a ariannir gan Lywodraeth Cymru. Bwriad y rhaglen yw rhoi cymorth i unigolion i fyw yn annibynnol ac mae'r gronfa yn cefnogi 60,000 o bobl yn flynyddol yng Nghymru i wneud hynny. Fe ellid dadlau, os na fyddai GISDA yn cael y cytundeb yma yna byddai Cyngor Gwynedd yn comisiynu mudiad arall i gynnig y gwasanaeth yma gan fod dyletswydd statudol i gefnogi pobl ifanc ddigartref. Bu ystyriaeth felly i roi canran gwrthffeithiol uchel ar yr holl ddeilliannau, fodd

bynnag, bwriad Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad yw i'n galluogi i reoli effaith yn well, a byddai rhoi lefel uchel o gwrthffeithiol am y rheswm yma yn ein rhwystro rhag deall yr effaith.

Er mwyn cadw at yr egwyddorion o werth cymdeithasol, gofynwyd wrth y pobl ifanc a'r rhanddeiliaid eraill beth fyddai wedi bod yn debygol o ddigwydd heb ymyrraeth gan GISDA. Yn yr arolwg i bobl ifanc rhoddwyd yr opsiynau canlynol:

- Ddim yn debygol o gwbl heb GISDA
- Siawns bach
- Gweddol debygol
- Tebygol iawn
- Byddai'n siwr o ddigwydd heb GISDA

Roedd y mwyafrif wedi rhoi ddim yn debygol o gwbl heb GISDA, neu fod siawns bach ohono yn digwydd heb GISDA. Fodd bynnag, roedd angen hefyd ystyried pa wasanaethau eraill byddai yn debygol o roi cymorth os na fyddent yn gweithio gyda GISDA. Cyfeiriwyd rhai pobl ifanc yn y panel am gwmni Bywyd Bywiog / Tŷ Jackie yng Nghaernarfon sydd yn cynnig gwasanaeth tebyg. Mae'r cwmni gyda chapasiti dipyn llai ac felly mae llefydd cyfyngedig ar gael. Cwmni arall sydd yn cynnig gwasanaeth digartrefedd yw Tai Gogledd Cymru gyda chymorth yn bennaf yng Ngwynedd a Chonwy. Mae'r cwmni yn cynnig gwasanaeth tebyg i bobl ifanc ond yn ôl y wefan mae lle i 3 o bobl ifanc rhwng 16-18. Mae'r cwmni gyda dau hostel ym Mangor sydd yn cynnig lle i 21 i gyd ond nid yw hwn yn wasanaeth penodol i bobl ifanc o dan 25.

“Without GISDA I wouldn't have the chance to be myself without the harms of abuse from my family and I feel that without the support I had gotten I would have never gotten out of my home.”

Defnyddiwyd y cyfweliadau a gynhaliwyd gydag unigolion a rhanddeiliaid eraill, a chanlyniadau’r ail adolygiad i gyrraedd yr amcangyfrif rhesymol yn Nhabl 7 isod. Er mwyn cysondeb ac ei wneud yn haws i reoli mae system cyson yma o nodi gwrthffeithiol a bydd yr un system ar gyfer y nodweddion eraill.

30% isel

60% canolig

90% uchel

**Tabl 7 – Gwerth Gwrthffeithiol**

| Deilliant | Gwrthffeithiol | Cyfiawnhad |
|---|---|---|
| **Gwell iechyd meddwl** | 30% Pobl ifanc sydd yn rieni<br>60% Pobl ifanc sengl | Mae’r gwasanaeth i’r bobl ifanc wedi ei deilwra yn arbennig ar gyfer anghenion unigol. O ran gwasanaeth penodol i rieni, roedd y bobl ifanc yn dweud bod siawns isel y byddent wedi profi’r newidiadau yma os na fyddent wedi cael cymorth gan GISDA. Er bod yna wasanaethau eraill ar gael yng Ngwynedd, nid oedd eraill i weld gydag unedau penodol i deuluoedd a chymorth i rieni. Mae felly lefel isel o gwrthffeithiol yma.<br>Ar gyfer y bobl ifanc sengl, er bod y mwyafrif wedi dweud nad oedd siawns byddent wedi profi’r newidiadau yma ar wahân i GISDA, roedd eraill wedi dweud bod siawns canolig neu uchel byddai wedi digwydd beth bynnag. Mae yna wasanaethau eraill ar gael ond cyfyngedig fodd bynnag yw’r gwasanaeth penodol ar gyfer bobl ifanc yng Ngwynedd. Rhoddwyd canran canolig yma. |
| **Annibynniaeth** | 30% Pobl ifanc sydd yn rieni<br>60% Pobl ifanc sengl | Roedd newid mawr yn y deilliant yma i’r rhai ifanc oedd yn rhieni. Dywedodd nifer oherwydd eu sefyllfa nad oeddent yn teimlo eu bod mewn rheolaeth o fywydau eu hunain ac yn cael gwneud penderfyniadau fel rhieni. Roedd derbyn cymorth penodol mewn uned teulu wedi helpu i godi hyder fel rhieni ac roeddent yn llawer mwy annibynnol.<br>Nododd y bobl ifanc sengl bod y cymorth gan staff GISDA wedi eu paratoi ar gyfer byw yn annibynnol a bod hynny wedi digwydd ar gyflymdra oedd yn ei siwtio nhw. Fel uchod, mae yna siawns byddai hyn wedi digwydd drwy wasanaeth arall felly mae canran |

| | | |
|---|---|---|
| | | canolig wedi ei ddefnyddio yma er mwyn peidio â gor-hawlio. |
| **Teimlo yn llai ynysig – gwell rhwydwaith o gefnogaeth** | 30% Pobl ifanc sydd yn rieni<br>60% Pobl ifanc sengl | Ar gyfer y bobl ifanc i gyd, roedd cael y rhwydwaith o gefnogaeth yn allweddol bwysig. Roedd nifer wedi bod mewn rhyw fath o grisis a llawer wedi cael profiadau gwael ac yn cael trafferth ymddiried mewn unrhyw un. Ar gyfer nifer, roedd angen cymorth am dymor hir er mwyn gweld unrhyw newidiadau. Roedd yr amser roedd GISDA yn ei roi ar gefnogaeth dros amser yn sicrhau newid positif. Eto, ar gyfer peidio gor-hawlio mae yna lefel isel – canolig y gallai hyn wedi digwydd beth bynnag. |
| **Gwell iechyd corfforol** | 30% Pobl ifanc sydd yn rieni<br>60% Pobl ifanc sengl | Mae'n bosibl y gallai mudiadau eraill fod wedi rhoi'r un cyngor, a fyddai wedi cael effaith debyg, neu gallai aelodau o'r teulu neu ffrindiau fod wedi helpu. Fodd bynnag, roedd y rhwystrau a fu'n eu hatal yn y gorffennol yn golygu nad oedd hynny'n bosibl, felly helpodd y prosiect hwn iddynt oresgyn y rhwystrau a sicrhau newid cadarnhaol. |

## 8.2 PRIODOLIAD

Mae priodoliad yn golygu y gallwn gydnabod cyfraniad eraill tuag at gyflawni'r deilliannau hyn.

Mae bob amser yn bosibl y bydd eraill yn cyfrannu at unrhyw newidiadau ym mywydau pobl, fel aelodau o'r teulu neu fudiadau eraill. Mae priodoliad yn ein galluogi i weld faint o'r newid sy'n digwydd o ganlyniad i gefnogaeth y prosiect hwn.

Gofynnwyd yn benodol i unigolion faint o'r newidiadau hyn oedd wedi digwydd o ganlyniad i'r prosiect hwn:

*Cwestiwn . Faint o'r newid mewn (deilliant) rydych chi wedi'i brofi sy'n ganlyniad i eraill ar wahan i GISDA? Gall mudiadau eraill neu teulu / ffrindiau fod wedi eich helpu hefyd.*

Roedd y mwyafrif wedi ateb yn dweud bod dim, ychydig neu rhai o'r newidiadau oherwydd GISDA.

Rhoddir priodoliad o 30% i'r gwerthoedd Gwell iechyd meddyliol a Theimlo yn llai ynysig ar gyfer y rhieni ifanc. Roeddent yn dweud bod eraill wedi helpu gyda'r deilliant o fod yn annibynnol. Yn y sgyrsiau grwpiau ffocws, roedd y rhieni yn dweud bod y newidiadau oherwydd GISDA ond roedd nifer hefyd wedi cael perthynas gwell gyda theulu o ganlyniad i

gael byw gyda GISDA, a bod y rhieni yna wedi bod yn rhan fawr hefyd o helpu gyda pharatoi ar gyfer byw yn annibynnol.

Ar gyfer pobl ifanc sengl, rhoddir priodoliad isel ar gyfer y pedwar deilliant. Mae hyn yn cyd-fynd gyda beth roedd y pobl ifanc yn dweud yn y grwpiau ffocws / cyfweliadau a hefyd yn beth sydd yn yr holiadur. Roedd nifer yn dod o gefndir cymhleth ac i lawer roeddent yn teimlo bod y cymorth gan GISDA yn amhrisiadwy. Roedd nifer o'r bobl ifanc yn derbyn cymorth gan eraill ac roedd hyn yn cynnwys:

- Tîm iechyd meddwl
- Meddyg teulu
- Ymwelwyr iechyd
- Swyddogion lles yn y colegau
- Cyflogwyr
- Teulu

Fodd bynnag, nododd nifer na fyddent yn ymgysylltu gyda mudiadau eraill oni bai am y cymorth gafael llaw gan GISDA ar y cychwyn a chael gwell hyder.

## 8.3 DADLEOLIAD

Mae angen inni ystyried a yw'r deilliannau yn dadleoli deilliannau eraill yn rhywle arall. Er enghraifft, beth os ydyn ni'n mynd i'r afael â gweithgaredd troseddol ar un stryd, a bod y broblem yn symud i rywle arall, yn hytrach na diflannu? Mae'r gwasanaeth hwn yn rhoi cymorth angenrheidiol i bobl ifanc sydd yn ddigartref neu ar risg o fod yn ddigartref a nid ydy yn dadleoli unrhyw wasanaeth arall.



SOCIAL VALUE CYMRU

### 8.4 GOSTYNGIAD

Nod y prosiect yw galluogi a pharatoi pobl ifanc i fyw yn annibynnol ac i ymdopi'n well yn y tymor hir. Trwy gymryd mwy o ran yn y gymuned, ymwneud mwy yn gymdeithasol a datblygu sgiliau i fyw'n annibynnol dylid gweld newidiadau a buddiannau hirdymor. Dros amser, bydd nifer o ffactorau eraill yn cyfrannu at gynnal y deilliannau hyn ac felly dim ond y gwerth am flwyddyn y mae'r dadansoddiad hwn yn ei ystyried ar wahân i'r deilliant Gwell annibyniaeth. Penderfynwyd rhoi dwy flynedd ar y deilliant yma oherwydd roedd y sgiliau wnaethant ei ddatblygu yn rhywbeth roedd am aros gyda nhw. Rhoddir cyfradd gostyngiad o 50% ar gyfer yr ail flwyddyn, gan y bydd yr effaith a grëir gan y prosiect yn lleihau dros amser wrth i gyfraniadau eraill ddod yn fwy amlwg yn y gwaith o gynnal neu gynyddu'r newid.

# 9.0 Canlyniadau SROI

Mae'r rhan hwn o'r adroddiad yn cyflwyno canlyniadau cyffredinol y dadansoddiad SROI o'r Prosiect Cymorth Tai a ddarparwyd gan GISDA. Atgyfnerthir y canlyniadau hyn gan yr wyth egwyddor SROI a gymhwyswyd yn ofalus i bob agwedd o'r dadansoddiad. Mae'r canlyniadau yn dangos y cyfraniad cadarnhaol y mae'r Prosiect Cymorth Tai yn ei wneud trwy ymroddiad y staff i greu newid cadarnhaol ym mywydau y pobl ifanc a chanddynt anghenion cymdeithasol, emosiynol ac ymarferol.

Drwy gael mynediad at loches staff, cymorth un i un gan y gweithwyr allweddol a chael mynediad at galendr o weithgareddau amrywiol a hyfforddiant, dros amser maent yn gweld newidiadau positif yn eu bywydau ac yn cymryd camau tuag at baratoi at fyw yn annibynnol.

Mae Tabl 8 yn dangos y gwerth presennol a grëwyd ar gyfer pob un o'r rhanddeiliaid a gynhwysir sydd wedi gweld newidiadau perthnasol. Mae'r cyfrifiadau gwerth presennol yn cynnwys cyfradd ddisgownt o 3.5% fel yr awgrymir yn Llyfr Gwyrdd y Trysorlys.

**Tabl 8 – Cyfanswm y Gwerth Presennol a Grëwyd fesul Rhanddeiliad**

| Rhanddeiliad | Y gwerth a grëwyd o ganlyniad i brosiect Cefnogaeth Tai GISDA fesul person fesul blwyddyn | Cyfran o gyfanswm y gwerth a grëwyd |
|---|---|---|
| Pobl ifanc sydd yn rieni | £480,662 | 16% |
| Pobl ifanc sengl Blaenau Ffestiniog | £738,742 | 22% |
| Pobl ifanc sengl Caernarfon | £1,031,213 | 31% |
| Pobl ifanc – gwasanaeth galw mewn | £431,500 | 12% |
| Gwasanaethau eraill | £616,663 | 19% |

Mae'r canlyniadau cyffredinol yn Nhabl 9 yn amlinellu cyfanswm y gwerth a grëwyd, cyfanswm y gwerth presennol (wedi'i ddisgowntio 3.5%), y gwerth net presennol, ac yn y pen draw, y gymhareb SROI.

**Tabl 9 – Prif Ganlyniadau SROI**

| Cyfanswm y gwerth a grëwyd | £ |
|---|---|
| **Cyfanswm y gwerth presennol** | £3,653,743 |
| **Gwerth y buddsoddiad** | £633,081 |
| **Gwerth net presennol (gwerth presennol minws y buddsoddiad)** | £3,020,661 |
| **Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad** | **£5.77:1** |

**Mae'r canlyniad o £5.77:1 yn dangos bod £5.77 o werth yn cael ei greu am bob £1 a fuddsoddir yn Prosiect Cefnogaeth TAI GISDA**

# 10. Dadansoddiad Sensitifrwydd

Mae'r canlyniadau yn dangos y gwerth hynod arwyddocaol a grëwyd gan Prosiect Cymorth Tai a ddarparwyd gan GISDA, a seilir y canlyniadau ar ddefnyddio egwyddorion y fframwaith SROI. Er bod tybiaethau cynhenid o fewn y dadansoddiad hwn, mae cadw at yr egwyddor o beidio gor-hawlio yn arwain at bosibilrwydd o danbrisio rhai o'r deilliannau perthnasol ar faterion fel parhad yr effaith.

Bwriad cynnal dadansoddiad sensitifrwydd yw asesu unrhyw dybiaethau a gawsant eu cynnwys yn y dadansoddiad. Mae rhoi prawf ar un newidyn ar y tro, megis nifer, parhad, gwrthffeithiol neu ostyngiad, yn golygu y gellir canfod unrhyw agweddau sy'n effeithio'n sylweddol ar y

canlyniad. Os pennir bod unrhyw fater yn cael effaith berthnasol, dylid pwyso a mesur a rheoli'r dybiaeth hon yn ofalus wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen. I roi prawf ar y tybiaethau yn y dadansoddiad hwn, gwnaethpwyd newidiadau sylweddol i nifer o agweddau er mwyn canfod gwerth eu heffaith. Cyflwynir crynodeb o'r canlyniadau yn Nhabl 10.

Er bod canlyniadau'r prawf sensitifrwydd yn arddangos newid yn y canlyniad, wrth ystyried y newidiadau allweddol yma a chanran y newid, gwelir bod y canlyniad yn dangos os ydym yn newid un newidyn yn sylweddol, mae'r canlyniad yn parhau i fod yn bositif iawn. Ceir y newid mwyaf yn y deilliant o leihau costau i'r wlad ynghlwm a digartrefedd. Er bod yna ofal i beidio gor-hawlio yma, mae hwn yn rhywbeth i'w reoli yn y dyfodol.

Fel gwelir yn adran 8, cymerwyd camau gofalus er mwyn ystyried beth i'w gynnwys fel canran gwrthffeithiol a phriodoliad. Os newidir y priodoliad i'r holl ddeilliannau sydd yn perthyn i'r bobl ifanc i 90%, mae'r canlyniad yn parhau i ddangos yn bositif ar £2.23 am bob £1 a fuddsoddwyd. Wrth edrych ar y tabl sensitifrwydd, gall y gwerthusiad gwerth cymdeithasol gael ei amcangyfrif rhwng £5.27 a £6.21. Y rhagdybiaeth yn yr adroddiad yma yw £5.77.

## Gwirio'r canlyniad

- Gofynnwyd i'r bobl ifanc gadarnhau'r deilliannau ar ddiwedd pob sesiwn, ond hefyd gofynnwyd i'r staff gadarnhau'r deilliannau yma yn ogystal â rhai rhanddeiliaid eraill.
- Cyflwynwyd y theori o newid i rai aelodau staff er mwyn cael adborth.
- Cadarnhau'r deilliannau eto mewn holiadur.

Tabl 10 – Crynodeb Dadansoddiad sensitfrwydd

| Rhanddeiliaid | Deilliannau | Prawf sensitifrwydd | SROI diwydiedig | Gwahaniaeth | Cyfran o newid |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhieni ifanc | Gwell iechyd meddwl | Tynnu'r deilliant o'r map | £5.42 | -£0.35 | 6% |
| | | Cynyddu'r canran gwrthffeithiol o 30% to 60% | £5.62 | -£0.15 | 2% |
| | | Newid y gwerth ariannol i £10,000 | £5.60 | -£0.17 | 3% |
| Pobl ifanc Sengl Blaenau Ffestiniog | Gwell annibyniaeth | Cynyddu priodoliad o 30% i 60% | £5.52 | -£0.25 | 4% |
| | | Newid cyfnod y gwerth o 2 flynedd i 1 | £5.58 | -£0.19 | 3% |
| | | Newid gwerth ariannol i £15,000 | £5.47 | -£0.30 | 5% |
| Pobl ifanc sengl Caernarfon | Teimlo yn llai unig, gwell rhwydwaith o gefnogaeth | Tynnu'r deilliant o'r map | £5.44 | -£0.33 | 5% |
| | | Lleihau'r nifer sydd yn profi'r newid i 16 | £5.60 | -£0.17 | 3% |
| | | Cynyddu'r canran gwrthffeithiol o 60% i 90% | £5.52 | -£0.25 | 4% |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Digartrefedd** | **Llai o gostau ynghlwm a digartrefedd** | Lleihau y nifer i 30 | £5.27 | -£0.50 | 8% |
| | | Cynyddu'r nifer i 90 | £6.21 | +£0.44 | 7% |

# 11.0 Argymhellion

1) **Mesur gwerth cymdeithasol** - mae sicrhau bod gennym ddata gwaelodlin, a chynnal adolygiad hanner ffordd ac adolygiad ar y diwedd, yn hanfodol er mwyn deall a oes unrhyw newid yn digwydd, yn ogystal â faint o newid, ac a oes gwahaniaethau rhwng anghenion gwahanol unigolion. Fel mudiad, mae GISDA eisioes gyda system yn ei lle i fesur data ac yn cynnal adolygiadau yn rheolaidd. Pan gaiff data o'r fath ei gasglu dros gyfnod o amser, bydd potensial i ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir i oleuo penderfyniadau. Yn y pen draw, golyga hyn nad cael ei fesur yn unig mae gwerth, ond cael ei reoli i wella effeithiau'r prosiect.

   Wrth edrych ar y mesurau gan GISDA yn bresennol, mae yna le i newid ychydig ar rhain er mwyn sicrhau fod y mesurau cywir yn cael eu mesur a rheoli. Er enghraifft, yn bresennol mae iechyd a lles yn cael ei fesur fel un deilliant – ond mae hwn yn eang ac mae modd edrych yn fwy penodol ar iechyd meddwl ac iechyd corfforol gan bod angen ei rheoli ar wahân. Argymhellir felly bod angen i unrhyw barhad o'r cynllun hwn, **fuddsoddi amser i sicrhau bod systemau a phrosesau addas ar waith i fesur gwerth cymdeithasol,** a dylid ymestyn hyn hefyd i gynnwys rhanddeiliaid pwysig eraill. Bydd cymorth gyda hyn yn cael ei gynnig ar wahân.

2) **Darpariaeth ar draws Gwynedd** – fel gwelwyd yn yr adroddiad, roedd rhai pobl yn teimlo ym Mlaenau nad oedd cymaint yn digwydd i gymharu ac yng Nghaernarfon. Fodd bynnag, roedd yna newidiadau wedi bod yn ystod y cyfnod hwn a chalendr o ddigwyddiadau ar gael. Ni chafwyd unrhyw ymgysylltiad gydag unigolion o Ddolgellau a Pwllheli yn yr adroddiad hwn, ond roedd rhai o'r bobl ifanc oedd gyda


SOCIAL VALUE CYMRU

chyswllt gyda'r ardal yma yn nodi consyrn am ddiffyg cyfleon tebyg ar draws y Sir. Fe nodir yn strategaeth Cymorth Tai Cyngor Gwynedd 2022-2026 hefyd bod yna ardaloedd o angen ym Mangor a rhai ardaloedd ym Mhwllheli. Drwy adeiladu ar y llwyddiant yng Nghaernarfon a Blaenau gellir cynyddu'r gwerth cymdeithasol, ond wrth gwrs mae angen adnabod bod angen adnoddau ychwanegol er mwyn gwneud hynny hefyd.

3) **Darpariaeth LGBTQ+** - Fel nodwyd yn yr adroddiad, roedd nifer o'r bobl ifanc yn cael eu hadnabod fel bod yn rhan o'r gymuned LGBTQ+ (50%) ac roedd nifer yn bositif iawn am y gefnogaeth sydd ar gael yn GISDA ac yn mwynhau mynychu'r clwb. Mae modd adeiladu ar y llwyddiant yma fodd bynnag, gydag ambell berson ifanc yn dweud pa mor fuddiol byddai sicrhau bod yr holl staff yn cael hyfforddiant arbennig am y broses o drawsnewid. Eto, mae hwn yn flaenoriaeth gan Cyngor Gwynedd hefyd dros y misoedd nesaf er mwyn datblygu darpariaeth arbenigol. Gyda GISDA yn barod yn datblygu arbenigedd yma, byddai modd cydweithio ac edrych ar beth yw'r pwyntiau gweithredu yma er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau i'r unigolion.

4) **Trafnidiaeth** – Nid yw hwn yn argymhelliad newydd ac yn cael ei weld mewn nifer o adroddiadau a strategaethau i'w wneud a gwasanaethau ar draws y Sir. Roedd nifer o'r bobl ifanc yn dibynnu ar ei gweithwyr allweddol i fynd a nhw i apwyntiadau ac i siopa ac ati. Er mai diffyg hyder oedd y rhesymau cychwynnol am hyn, roedd y diffyg trafniadiaeth yn arafu'r broses iddynt ddod yn annibynnol ac yn golygu roedd llai o gyfleoedd i rai e.e. yn ardal Blaenau neu Dolgellau.

5) **Diffyg llety addas** – fel yr uchod, mae'r broblem yma yn un bydd y mudiad yn

ymwybodol ohono yn barod ond mae'n werth ei nodi yma eto gan iddo gael ei godi gan y bobl ifanc a'r staff. Roedd y pandemic hefyd wedi cael effaith ar dai addas yn dod ar gael i'r bobl ifanc er mwyn symud ymlaen. Roedd rhai gyda GISDA am beth amser, ac er bod rhai yn teimlo yn barod i adael y gwasanaeth, roedd diffyg tai yn golygu na allant wneud ac yna hyn yn achosi iddynt ddod yn fwy dibynnol dros amser.

6) **Cydweithio gyda mudiadau eraill** – yn ystod y broses ymgynghori, cafwyd cyfarfod gyda CAMHS. Eglurodd nad oedd yna bartneriaeth ffurfiol yn bresennol rhwng CAMHS a GISDA a'r teimlad oedd byddai ffurfioli ryw bartneriaeth o fudd i'r bobl ifanc. Cyfeiriwyd at gonsyrn ar adegau dylai fod yna gyfeirio mewn at y gwasanaeth a byddai cael partneriaeth ffurfiol yn fuddiol i'r mudiadau ond hefyd wrth gwrs i'r person ifanc yn y pen draw. Byddai cael cysondeb o ran cyfarfodydd a thrafodaethau yn fuddiol, yn ogystal â hyfforddiant i'r staff o ran pryd mae'n addas i gyfeirio ymlaen. Mae hwn yn cyd-fynd gyda nod y prosiect TAPI a'r bwriad yw cael cydweithio gwell rhwng mudiadau statudol a trydydd sector er mwyn sicrhau gwasanaeth a chefnogaeth lyfn i'r person ifanc.

7) **Cwnselydd i GISDA?** – Fel gwelwyd, mae iechyd meddwl yn broblem fawr ac mae effaith y pandemic wedi amlygu'r broblem yma. Roedd 66% o'r bobl ifanc gyda phroblemau iechyd meddwl a 33% gyda diagnosis iechyd meddwl. Roedd enghreifftiau o'r gweithwyr allweddol a staff 'sleep ins' yn gorfod ymdopi gyda sefyllfaoedd anodd a bregus. Roedd hyn yn ei dro hefyd yn cael effaith ar rai staff ar adegau ac yn achosi straen.

   Nododd nifer byddai cael cwnselydd o fewn y mudiad yn fuddiol er lles y bobl ifanc a'r staff. Gyda rhestr aros hirfaith i gael cymorth gan fudiadau statudol, byddai

cael mynediad at gwnselydd o bosib yn helpu yn y tymor byr a hefyd yn ysgafnhau ychydig ar y staff. Mae GISDA ar gyfnodau yn cael manteisio ar fyfyriwr/ wraig yn cynnig eu gwasanaeth dros gyfnod o amser ond yn ystod y cyfnod yma nid oedd yna gwnselydd ar gael. Mae angen cyd-nabod bod yna gost yma i dalu am adnodd o'r fath, ond mi all y buddsoddiad olygu rhagor o werth cymdeithasol yn y pen draw.

# 12.0 Casgliad

**Mae'r adroddiad hwn wedi dangos bod cynllun Prosiect Cymorth Tai GISDA wedi creu gwerth o fwy na £3 miliwn, ac wedi creu gwerth o £5.77 am bob £1 a fuddsoddwyd; golyga hyn, mewn termau ymarferol, fod bywydau pobl wedi cael eu newid er gwell.**

Drwy gael cymorth un-i-un gan weithwyr allweddol yn ogystal â rhaglen o weithgareddau, hyfforddiant a phrofiadau ar ddewis iddynt roedd yna newidiadau positif ym mywydau'r bobl ifanc dros gyfnod o amser.

I'r rhieni ifanc, roedd cael cyfle i fod yn rhieni annibynnol yn allweddol bwysig ond gyda'r cymorth ar gael i gymryd y camau cychwynnol o fod yn rhiant, a hynny heb golli unrhyw hawl i wneud penderfyniadau eu hunain dros y plant. Ar gyfer yr holl bobl ifanc roedd cael mynediad at loches saff a chael rhwydwaith o gefnogaeth o'u cwmpas yn hynod werthfawr ac roedd bod yn rhan o "deulu GISDA" yn golygu cymaint iddynt, yn enwedig i nifer oedd wedi cael profiadau gwael gyda gwasanaethau yn y gorffennol.

Y gost fesul person a gefnogwyd yma oedd £2,671. Yn ychwanegol i hyn roedd yna bobl ifanc arall wedi galw mewn i'r gwasanaeth. Roedd yr ymchwil yn dangos bod y gost o ddigartrefedd i'r wlad yn amrywio o £20,000-£30,000 fesul unigolyn drwy gostau i'r awdurdodau lleol, iechyd, DWP, heddlu a system cyfiawnder ac ati, ond yn ychwanegol i hynny ac yn fwy pwysig wrth gwrs yw'r gost i'r unigolyn o ddigartrefedd ar eu hiechyd a lles. Gwelir felly sut mae'r gwaith ataliol yma i gynnig lloches a helpu pobl ifanc i ddatblygu'n unigolion annibynnol yn creu gwerth cymdeithasol sylweddol. Byddai cael mwy o gydweithio rhwng mudiadau statudol a thrydydd sector yn helpu i gryfhau'r gwerth yma er lles y bobl ifanc.

Canfyddiadau allweddol yn cynnwys:

- Am bob £1 a fuddsoddwyd yn y gwasanaeth roedd £5.77 o werth cymdeithasol
- Y prif ddeilliannau i'r bobl ifanc oedd **gwell annibynniaeth, gwell iechyd meddwl, teimlo yn llai unig gyda rhwydwaith gwell o gefnogaeth, gwell iechyd corfforol**
- 100% o'r rhieni ifanc a gymerodd rhan yn dweud eu bod yn fwy annibynnol a bod newidiadau positif yn eu hiechyd meddwl. Roedd 40% yn teimlo yn llai unig.
- Roedd 83% o bobl ifanc Blaenau a 86% o bobl ifanc Caernarfon yn dweud bod eu hiechyd meddwl yn well
- Roedd 75% o bobl ifanc Blaenau a 86% o bobl ifan Caernarfon yn dweud eu bod yn teimlo yn fwy annibynnol
- 100% o staff a gymerodd rhan yn yr asesiad yn dweud eu bod wedi datblygu sgiliau ac yn cael boddhad personol o helpu eraill
- Y gost o'r gwaith ataliol yma yn creu arbedion i wasanaethau statudol drwy osgoi digartrefedd

# Atodiadau

1) Map gwerth – Dogfen Excel

2) Theori o newid pobl ifanc sengl


3) Theori o newid Pobl ifanc sydd yn rieni


4) Tablau yn edrych ar y data fesul grwpiau

5) Holiadur

6) Esiampl o galendr o ddigwyddiadau GISDA

# Theori newid Cefnogi Pobl




Theori newid
Cefnogi rhieni
Cefnogaeth ar gael gan dîm Cefnogi Pobl
Teimlo yn bryderus ar y cychwyn – nifer gydag ychydig iawn o hyder ac lefel isel o ymddiried mewn pobl
Datblygu perthynas gyda'u gweithwyr allweddol
Dechrau ymddiried yn y gweithwyr a'r mudiad
Mynediad at nifer o weithgareddau amrywiol
Teimlo yn well cael amserlen a 'routine'
Newid ymarferion drwg
Gwell hunan hyder fel rhiant
Gwell llesiant meddyliol
Teimlo yn well cael rhywun i siarad gyda
Datblygu perthynas gydag eraill – ffrindiau newydd
Mwy o gyfleoedd i gymdeithasu
Teimlo yn well cael rhwydwaith o gefnogaeth
Ymdeimlad o berthyn / bod yn rhan o deulu
Lleihau lefelau o straen / iselder/ pryder
Teimlo yn llai ynysig
Mynediad gwell at wasanaethau
Pethau negyddol o bosib
·Dibyniaeth
·Ar gyfer y rhai heb newid – angen ystyried eu bod yn teimlo yn fwy ynysig a iechyd meddyliol yn dirywio.
Gwella sgiliau
Gwell hunan hyder
Mynediad i addysg neu i waith neu medru parau mewn addysg / gwaith
Gobaith
Ymdeimlad o bwrpas
Gwell llesiant corfforol
Cael mynediad at loches
Teimlo yn saff drwy gael cartref
Datblygu sgiliau i fyw yn annibynnol
Teimlo yn mwy positif ar gyfer y dyfodol / teimlo yn fwy annibynnol
Gwell gwybodaeth o ran cymorth ar gael i rieni
Teimlo yn fwy hyderus i fynychu sesiynau a gweithgareddau i blant yn y gymuned gyda cymorth
Perthynas gwell gyda teulu i rai
Teimlo yn llai o dan bwysau
Mwy hyderus i wneud penderfyniadau fel rhiant
Cael llais fel rhiant
Teimlo yn fwy hyderus fel rhiant

Atodiad 3

**Atodiad 4 Data segmentau**

**Pobl ifanc sydd yn rieni**

Survey Monkey (5)

| Deilliant | Canran y newid % | Weighting | Counterfactual | Attribution |
|---|---|---|---|---|
| Gwell iechyd meddwl | 52.5 | 77 | low | low |
| Teimlo yn llai unig | 50 | 74 | low | low |
| Gwell annibyniaeth | 72.5 | 75 | low | med |
| Iechyd corfforol | 18.5 | 82 | low | Low-med |

Data GISDA (3)

| **Deilliant** | **Sesiwn gyntaf** | **Adolygiad** |
|---|---|---|
| Diogelwch | 5.6 | 8 |
| Datblygiad personol | 5 | 6.3 |
| Hyder | 4.3 | 7 |
| Cymhellaid | 4.3 | 7.3 |
| Iechyd a lles | 2.6 | 6.3 |
| Annibyniaeth | 3 | 8 |
| Hapusrwydd | 5.3 | 6.3 |
| Cymryd rhan yn y gymuned | 2 | 5.6 |

**Pobl ifanc sengl (22)**

| Outcome | % Experiencing change | Distance Travelled | Weighting | Counterfactual | Attribution |
|---|---|---|---|---|---|
| Improved mental health<br>1 x no change<br>4 x blank | 82% | 59 | 66 | 15 x low<br>1 med<br>6- high | 9 low<br>10 medium<br>4 high |
| Reduced loneliness<br>3 x no change<br>3 x D/A | 73% | 51 | 70 | 11 x low<br>6 x med<br>5 x high | 14 x low<br>3 x med<br>5 x high |
| Independence<br>3 x no change<br>1 D/A | 77% | 71 | 82 | 15 x low<br>4 x med<br>1 x high | 12 x low<br>7 x med<br>3 x high |
| Physical health<br>4 x no change | 64% | 42 | 57 | 15 x low<br>4 x med | 10 x low<br>7 x med |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 2 D/A | | | | 3 x high | 5 x high |
| | | | | | |

Data GISDA Pawb sengl (15)

| Outcome | Baseline | review | 2nd review |
|---|---|---|---|
| Safety | 5.6 | 6.2 | |
| Personal development | 4.8 | 5.6 | 6 |
| Confidence | 4.9 | 5.7 | 6.3 |
| Motivation | 4.9 | 6 | |
| Health and well-being | 5 | 5.5 | |
| Independence | 5.5 | 7 | |
| Happiness | 5.4 | 6.4 | |
| Involvement in the community | 4.8 | 5.2 | |

SM Blaenau Ffestiniog (12)

| Outcome | % Experiencing change | Distance Travelled | Weighting | Counterfactual | Attribution |
|---|---|---|---|---|---|
| Improved mental health<br>1 x no change<br>1 x blank | 83% | 53 | 54 | 8 x low<br>1 x med<br>3 x high | 5 x low<br>6 x med<br>1 x low |
| Reduced loneliness<br>2 x no change<br>1 x D/A | 75% | 65% | 61 | 7 x low<br>3 x med<br>2 x high | 7 x low<br>1 x med<br>4 x high |
| Independence<br>2 x no change<br>1 D/A | 75% | 60 | 85 | 7 x low<br>3 x med<br>1 x high | 7 x low<br>2 x med<br>3 x high |
| Physical health<br>2 x no change<br>2 D/A | 66% | 31% | 58 | | |
| | | | | | |

S M CaernARFON (14)

| Outcome | % Experiencing change | Distance Travelled | Weighting | Counterfactual | Attribution |
|---|---|---|---|---|---|
| Improved mental health<br>2 x blank | 86% | 62.5 | 79 | 10 X low<br>1 x med<br>3 x high | 6 x low<br>6 x med<br>2 x high |
| Reduced loneliness<br>2 x no change<br>4 x D/A | 57 | 56 | 78 | 7 x low<br>4 x med<br>3 x high | 9 x low<br>4 x med<br>1 x high |
| Independence<br>1 x no change | 86 | 79 | 75 | 12 x low<br>2 x med | 7 x low<br>6 x med |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 1 D/A | | | | | 1 x high |
| Physical health<br>4 x no change<br>1 D/A | 64% | 46 | 66 | 10 x low<br>2 x med<br>2 x high | 8 x low<br>2 x med<br>2 x high |
| | | | | | |

SM Results female

| Outcome | % Experiencing change | Distance Travelled | Weighting | Counterfactual | Attribution |
|---|---|---|---|---|---|
| Improved mental health<br>1 x no change<br>1 x blank | 82% | 71 | 60 | 7 x low<br>1 x med<br>3 x high | 4 x low<br>6 x med<br>1 x high |
| Reduced loneliness<br>2 x no change | 82% | 57 | 65 | 7 x low<br>2 x med<br>2x high | 7 x low<br>1 x med<br>3 x high |
| Independence<br>2 x no change<br>1 D/A | 73% | 75 | 90 | 6 x low<br>3 x med<br>2 x high | 6 x low<br>3 x med<br>2 x high |
| Physical health<br>2 x no change<br>1 D/A | 73% | 44 | 54 | 8 x low<br>1 x med<br>2 x high | 6 x low<br>2 x med<br>3 x high |
| | | | | | |

SM Results Male

| Outcome | % Experiencing change | Distance Travelled | Weighting | Counterfactual | Attribution |
|---|---|---|---|---|---|
| Improved mental health<br>2 x blank | 78 | 43 | 74 | 6 x low<br>3 x high | 4 x low<br>3 x med<br>2 x high |
| Reduced loneliness<br>1 x no change<br>2 x D/A | 66 | 42 | 82 | 3 x low<br>4 x med<br>2 x high | 6 x low<br>2 x med<br>1 x high |
| Independence<br>1 x no change<br>1 D/A | 78 | 66 | 69 | Low | 5 x low<br>3 x med<br>1 x high |
| Physical health<br>2 x no change<br>1 D/A | 66 | 42 | 59 | 5 x low<br>3 x med<br>1 x high | 3 x low<br>5 x med<br>1x high |
| | | | | | |

DATA GISDA LGBTQ

| Outcome | Baseline | review | 2nd review |
|---|---|---|---|
| Safety | 5 | 6 | 6 |
| Personal development | 4.5 | 4.8 | 6.3 (3) |
| Confidence | 4.7 | 5.4 | 6 (3) |
| Motivation | 4.8 | 6.1 | 6.3 (3) |
| Health and well-being | 4.1 | 5 | 6.3 (3) |
| Independence | 5.2 | 7.5 | 6.5 (2) |
| Happiness | 4.5 | 6.1 | 6 (2) |
| Involvement in the community | 4.4 | 5.3 | 6 (2) |

Data GISDA – Not LGBTQ

| Outcome | Baseline | review | 2nd review |
|---|---|---|---|
| Safety | 6.1 | 6.5 | 6.75 (4) |
| Personal development | 5.1 | 6.3 | 5.8 (5) |
| Confidence | 5.1 | 6 | 6.6 (5) |
| Motivation | 5 | 5.8 | 6 (5) |
| Health and well-being | 5.6 | 6 | 6.2 (5) |
| Independence | 5.8 | 6.3 | 5.8 (5) |
| Happiness | 6 | 6.6 | 7 (5) |
| Involvement in the community | 5.1 | 5.1 | 4.3 (3) |

Data GISDA Male

| Outcome | Baseline | review | 2nd review |
|---|---|---|---|
| Safety | 5.2 | 6.2 | 7 |
| Personal development | 4.4 | 5.2 | 6.6 |
| Confidence | 5 | 5.2 | 6 (3) |
| Motivation | 4.6 | 5.8 | 6.3 (3) |
| Health and well-being | 4.2 | 5.2 | 6 (3) |
| Independence | 5.2 | 7 | 7 (2) |
| Happiness | 4.8 | 5.5 | 6 (2) |
| Involvement in the community | 4 | 4 | 5.5 (2) |

Data GISDA Female

| Outcome | Baseline | review | 2nd review |
|---|---|---|---|
| Safety | 5.8 | 6.3 | 6 (4) |
| Personal development | 5.1 | 5.9 | 5.6 (5) |
| Confidence | 4.9 | 6 | 6.6 (5) |
| Motivation | 5.1 | 6.1 | 6 (5) |
| Health and well-being | 5.3 | 5.7 | 5.8 (5) |
| Independence | 5.8 | 6.8 | 5.6 (5) |
| Happiness | 5.6 | 6.7 | 7 (5) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Involvement in the community | 5.2 | 5.6 | 4.6 (3) |

## Atodiad 5 Holiadur

1. Nodwch lle yr ydych wedi eich lleoli os gwelwch yn dda?

- ◯ Blaenau Ffestiniog
- ◯ Caernarfon
- ◯ Felinheli
- ◯ Pwllheli

2. Sut byddech yn diffinio eich gendr?

- ◯ Gwryw
- ◯ Benyw
- ◯ Anneuaidd
- ◯ Nid wyf yn dymuno dweud
- ◯ Other (please specify)

3. Nodwch os ydych mewn addysg neu yn gyflogedig?

- ◯ Mewn addysg
- ◯ Cyflogedig rhan amser
- ◯ Cyflogedig llawn amser
- ◯ Di-waith ac dim mewn addysg

4. Oes gennych blant yn byw gyda chi?

- ◯ Oes
- ◯ Nac oes

5. Pa rhai o'r gweithgareddau yma ydych yn cymryd rhan ynddynt yn rheolaidd? Nodwch pob un sydd yn berthnasol.

- [ ] Panel Pobl ifanc
- [ ] Caffi Creu
- [ ] ICAN
- [ ] Academi Cyfleon
- [ ] LGBT
- [ ] Sesiynau hyfforddiant gan gynnwys sesiynau coginio, rheoli arian ayb.
- [ ] Tripiau
- [ ] Cerdded
- [ ] Other (please specify)

6. Yn dilyn cael sgyrsiau gyda nifer o bobl ifanc yn GISDA, roedd llawer yn egluro sut bod cael rhwydwaith o gefnogaeth yn GISDA yn ogystal a chael rhaglen o weithgareddau a mynediad at wasanaethau wedi helpu i godi hunanhyder a dros amser roedd eu hiechyd meddwl yn gwella. A ydych yn teimlo bod eich iechyd meddwl wedi gwella ers i chi fod yn GISDA?

- Dim yn berthnasol i mi
- Dim newid
- Ychydig o newid
- Ambell newid
- Eithaf dipyn o newid
- Llawer o newid

7. Pa mor bwysig ydy'r newid rydych wedi'i gael yn eich iechyd meddwl? (os yn berthnasol) Mae hwny n raddfa 1-100 lle mae 100 yn bwysig iawn i chi.

1 — 10

8. Pa mor debygol fyddech chi o fod wedi profi'r newid hwn yn eich iechyd meddwl oni bai eich bod wedi bod yn rhan o GISDA?

- Ddim yn debygol o gwbl heb GISDA
- Siawns bach
- Gweddol debygol
- Tebygol iawn
- Byddai'n siwr o ddigwydd heb GISDA

9. Faint o'r newid mewn iechyd meddwl rydych chi wedi'i brofi sy'n ganlyniad i eraill ar wahan i GISDA? Gall mudiadau eraill neu teulu / ffrindiau fod wedi eich helpu hefyd.

- Dim ohono o ganlyniad i eraill
- Ychydig bach o ganlyniad i eraill
- Maint canolig o ganlyniad i eraill
- Llawer ohono o ganlyniad i eraill
- Mae'r cwbl o ganlyniad i eraill

10. Yn dilyn sgyrsiau gyda nifer o bobl ifanc GISDA, roedd nifer yn egluro eu bod wedi creu ffrindiau newydd, bod ganddynt mwy o gyfleoedd i gymdeithasu drwy'r gweithgareddau ac yn teimlo bod ganddynt rhwydwaith o gefnogaeth gwell. I lawer roedd hyn yn rhoi ymdeimlad o berthyn ac o ganlyniad roeddent yn teimlo yn llai unig ac ynysig. A ydych yn teimlo yn llai ynysig / unig ers bod gyda GISDA?

- ◯ Dim yn berthnasol i fi
- ◯ Dim newid
- ◯ Ychydig o newid
- ◯ Ambell newid
- ◯ Eithaf dipyn o newid
- ◯ Llawer o newid

11. Pa mor bwysig yw'r newid rydych wedi ei gael yn eich unigrwydd? (Os yn berthnasol). Mae hwn yn raddfa 1-100 lle mae 100 yn bwysig iawn i chi.

1 ——————————— 10 [ ]

12. Pa mor debygol fyddech chi o fod wedi profi'r newid hwn yn eich unigrwydd oni bai eich bod wedi bod yn rhan o GISDA?

- ◯ Ddim yn debygol o gwbl heb GISDA
- ◯ Siawns bach
- ◯ Gweddol debygol
- ◯ Tebygol iawn
- ◯ Byddai'n siwr o ddigwydd heb GISDA

13. Faint o'r newid mewn unigrwydd rydych chi wedi'i brofi sy'n ganlyniad i eraill ar wahan i GISDA? Gall fudiadau eraill neu teulu / ffrindiau bod wedi helpu hefyd.

- ◯ Dim ohono o ganlyniad i eraill
- ◯ Ychydig bach o ganlyniad i eraill
- ◯ Maint canolig o ganlyniad i eraill
- ◯ Llawer ohono o ganlyniad i eraill
- ◯ Mae'r cwbl o ganlyniad i eraill

14. Yn dilyn cael trafodaeth gyda rhai bobl ifanc GISDA, wnaethant egluro sut mae GISDA yn ei paratoi i fod yn annibynol drwy'r rhaglen o gymorth. A ydych yn teimlo yn fwy annibynol ers bod gyda GISDA?

- Dim yn berthnasol i mi
- Dim newid
- Ychydig o newid
- Ambell newid
- Eithaf dipyn o newid
- Llawer o newid

15. Pa mor bwysig yw'r newid rydych wedi'i gael yn eich annibyniaeth. (os yn berthnasol). Mae hwn ar raddfa o 1-100 lle mae 100 yn bwysig iawn i chi

1 10

16. Pa mor debygol fyddech chi o fod wedi profi'r newid hwn yn eich annibyniaeth oni bai eich bod wedi bod yn rhan o GISDA?

- Ddim yn debygol o gwbl heb GISDA
- Siawns bach
- Gweddol debygol
- Tebygol iawn
- Byddai'n siwr o ddigwydd heb GISDA

17. Faint o'r newid mewn annibyniaeth rydych chi wedi'i brofi sy'n ganlyniad i eraill ar wahan i GISDA? Gall mudiadau eraill neu teulu / ffrindiau fod wedi eich helpu hefyd.

- Dim ohono o ganlyniad i eraill
- Ychydig bach o ganlyniad i eraill
- Maint canolig o ganlyniad i eraill
- Llawer ohono o ganlyniad i eraill
- Mae'r cwbl o ganlyniad i eraill

18. A ydych yn teimlo bod eich iechyd corfforol wedi gwella ers i chi fod gyda GISDA?

- Dim yn berthnasol i fi
- Dim newid
- Ychydig o newid
- Ambell newid
- Eithaf dipyn o newid
- Llawer o newid

19. Pa mor bwysig yw'r newid rydych wedi'i gael yn eich iechyd corfforol? (Os yn berthnasol) Mae hwn ar raddfa o 1-100 lle mae 100 yn bwysig iawn i chi

1 10

20. Pa mor debygol fyddech chi o fod wedi profi'r newid hwn yn eich iechyd corfforol oni bai eich bod wedi bod yn rhan o GISDA?

- Ddim yn debygol o gwbl GISDA
- Siawns bach
- Gweddol debygol
- Tebygol iawn
- Byddai'n siwr o ddigwydd heb GISDA

21. Faint o newid mewn iechyd corfforol rydych chi wedi'i brofi sy'n ganlyniad i eraill tu allan i GISDA? Gall mudiadau eraill neu teulu / ffrindiau fod wedi helpu.

- Dim ohono o ganlyniad i eraill
- Ychydig bach o ganlyniad i eraill
- Maint canolig o ganlyniad i eraill
- Llawer ohono o ganlyniad i eraill
- Mae'r cwbl o ganlyniad i eraill

23. Oes rhywbeth yr hoffech weld yn well yn ein gwasanaeth? Oes unrhyw beth am ein gwasanaeth sydd yn negyddol yn eich barn chi?

24. Os hoffech ddweud rhywbeth arall am eich profiad gyda GISDA os gwelwch yn dda rhowch eich sylwadau yma.

**Atodiad 6**






SOCIAL VALUE CYMRU






SOCIAL VALUE CYMRU

# GISDA

## PWLLHELI

**June Programme**

| | |
|---|---|
| **02/06/2022** | LGBTQ+ Youth Club 5-7pm |
| **09/06/2022** | LGBTQ+ Youth Club 5-7pm |
| **13/06/2022** | Theatr y Bobl 1:30-2:30pm |
| **16/06/2022** | LGBTQ+ Youth Club 5-7pm |
| **19/05/2022** | LGBTQ+ Youth Club 5-7pm |
| **23/06/2022** | LGBTQ+ Youth Club 5-7pm |
| **27/6/2022** | Theatr y Bobl 1:30-2:30pm |
| **30/05/2022** | LGBTQ+ Youth Club 5-7pm |

For further info please email ***creadigol@gisda.co.uk***

GISDA
DARPARU CEFNOGAETH A CHYFLEOEDD I BOBL IFANC
PROVIDING SUPPORT AND OPPORTUNITIES FOR YOUNG PEOPLE

GISDA Creadigol